Rhif 200 EBRILL - MAI 2016

AM DDIM

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Cered, medd pawb a'i carant,
O gam i gam hyd ddau gant.


*–Tilsli*





**1877**
cyhoeddi'r Gwyliedydd am y tro cyntaf




**1910**
y newyddiadur yn parhau dan y teitl Gwyliedydd Newydd




Drwy weledigaeth ac ymdrech Owain Owain, rhoddwyd bywyd newydd i'r Gwyliedydd, a ail-lansiwyd yn
**1987**





Rhif 189 y Gyfres Newydd, y clawr lliw llawn cyntaf



Un â'i enw yn atseinio
Enw arwr Cymru i ddeffro;
Brwd yw sêl ein Owain ninnau
Medrwn ffrwyth ei amryw ddoniau

*–Tudor Davies*




# Bydd pawb sy'n yfed o'r dŵr hwn yn profi syched eto' (Ioan 4:7)

gan y Parchedig J. Bryn Jones

Rwy'n eistedd yn yr heulfan ar fore eitha' braf a daeth yn amser unwaith eto i feddwl am ddeunydd ar gyfer y golofn ddefosiynol a rennir gan Martin a minnau bob yn ddeufis. Nid prinder deunydd yw'r anhawster mwyaf, ond sut i ymdrin â gwahanol agweddau'r pwnc a ddaeth i'm meddwl, sef dŵr. Cafwyd y gaeaf cynhesaf ers dechrau cofnodi'r manylion; gyda'r afonydd yn torri eu glannau, cafwyd llifogydd enbyd mewn rhannau o'r wlad gan achosi difrod mawr. Nid ar chwarae bach y mae dod dros sefyllfaoedd felly a'r colledion a ddioddefwyd. Mae dŵr ynddo'i hun yn ddigon diniwed, wrth gwrs, ond rhaid paratoi bellach ar gyfer tywydd eithafol.

Diolch mai rhywbeth llesol yn ei hanfod yw dŵr. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, mae yfed dŵr glân yn gwneud llawer mwy o les i'r corff nag yfed te, coffi a diodydd byrlymog, nid yn unig i dorri syched ond hefyd i ddiogelu cyflwr yr arennau a rhannau eraill o'r corff. Mae'n hawdd diystyru ei bwysigrwydd, ond meddyliaf yn aml am gar heb olew...nid yw'r corff ddim gwahanol os yw am weithredu ar ei orau. Diolch felly am ddŵr glân a chofiwn fod rhannau o'r byd megis rhai o wledydd Affrica yn parhau i ddioddef o sychder am fisoedd, os nad blynyddoedd, gan achosi heintiau sy'n aml yn angheuol. Rydym fel teulu yn perthyn i elusen 'Wells for India' a sefydlwyd gan ŵr a gwraig o Winchester. Aethant ati i sefydlu'r elusen yn dilyn ymweliadau ag India a gweld sefyllfa druenus pobl a wynebai brinder dŵr. Anfonwyd peirianwyr i ardaloedd megis Gujarat, i weithio'n wirfoddol gan helpu i agor ffynhonnau a dosbarthu'r dŵr mewn tanceri i wahanol bentrefi. Mae'n hyfryd gweld y coed a'r planhigion a blannwyd yn cynhyrchu bwydydd iach.



LLUN: Erardi, Stefano. Christ and the Samaritan Woman, o **Art in the Christian Tradition**, prosiect o eiddo Llyfrgell Ddiwinyddiaeth Vanderbilt, Nashville, TN.

Stori adnabyddus ac un o straeon hyfrytaf y Beibl yw hanes y wraig o Samaria, a gyfarfu â Iesu wrth ffynnon Jacob. Yn y cyfarfyddiad hwnnw, nid yn unig y cafodd ddŵr o'r ffynnon, ond cafodd fywyd newydd yr Efengyl hefyd. Dyna'r wobr orau a gafodd erioed; ac nid ei gadw iddi hi ei hun a wnaeth ond rhannu ei phrofiad ag eraill. Pa beth gwell na hynny? (Ioan 14:1-26).

Wrth derfynu, manteisiaf ar y cyfle i longyfarch dathlu 200 rhifyn o'r Gwyliedydd a diolch i'r rhai a fu'n olygyddion dros y blynyddoedd. Diolch hefyd i Ffion a Robin am ymgymryd â'r gwaith a'n dymuniadau da iddynt i'r dyfodol.

## A hwy a ffromasant

**Mair o Fethania**
**a'th ennaint drud –**
**ai hyn dy gyfraniad**
**i dlodi'r byd?**
**Fe dorraist y blwch**
**– nid digon ei agor –**
**a thywallt y nard**
**heb feddwl rhagor**
**am gost y weithred:**
**ni holaist faint,**
**na gwrando ar och**
**y darbodus saint.**

**Distrywiaist y costus,**
**oferaist y drud:**
**ai hyn dy gyfraniad**
**i dlodi'r byd?**
**Ie - torraist y blwch:**
**difethaist y**
**drudfawr –**
**y fandal hir walltog**
**a'th ddifrod anwar!**

***Owain Owain***
(o www.owainowain.com)



LLUN: Sandys, Frederick, 1829-1904.
Mary Magdalene (or Mary of Bethany), o **Art in the Christian Tradition**, prosiect o eiddo Llyfrgell Ddiwinyddiaeth Vanderbilt, Nashville, TN.

**Gwyliedydd**

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 200**

**EBRILL–MAI 2016**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**Hoffem eich atgoffa'n garedig, er bod y *Gwyliedydd* am ddim, fod angen talu swm bychan iawn, £4 y flwyddyn, i gael copi unigol drwy'r post.**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU: 2 MAI, 2016**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "**Yr Eglwys Fethodistaidd – Synod Cymru**"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


Llawenydd o'r mwyaf yw cael cyflwyno'r 200fed rhifyn hwn o'r **Gwyliedydd** i sylw pawb o'r darllenwyr. Mae'n rhifyn estynedig i ddathlu'r achlysur. A fyddwch mor garedig â sylwi ar ein nodyn i danysgrifwyr ar dudalen 5.

Penderfynodd Pwyllgor Polisi Synod Cymru yn ddiweddar fod angen atgoffa cyfeillion pell ac agos pa mor gostus yw'r post! Gobeithio'n fawr y dewch, o bell ac agos, i Ddathlu'r 200 ar Ebrill 9fed – manylion yn y rhifyn hwn oni chawsoch nhw'n barod.

Croeso cynnes. – *Robin a Ffion*

# O'R GADAIR AR Y GOROR

## gan y Parchedig JENNIFER HURD

Pasg Hapus! Ynghyd â'i holl Eglwys, dathlwn atgyfodiad Iesu Grist. Trwyddo ef fe dderbyniwn rodd Duw sef maddeuant, bywyd newydd a gobaith sicr am ddechreuad newydd, beth bynnag sydd wedi digwydd o'r blaen. Mae gennym reswm i ddathlu! Yn ogystal â thymor y Pasg, dathlwn ddyfodiad yr Ysbryd Glân ar Sul y Pentecost; yn yr Eglwys Fethodistaidd rhown sylw arbennig hefyd i 24 Mai bob blwyddyn, pan fyddwn yn dathlu dydd tröedigaeth John Wesley. Ond mae'r rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd* yn nodi un dathliad arall hefyd, sy'n unigryw i ni yn Synod Cymru, oherwydd dyma Rifyn 200 ers sefydlu Cyfres Newydd y *Gwyliedydd*. Gadewch inni ddathlu! Gobeithio'n fawr y caf eich gweld yn y parti yng Nghaernarfon ar 9 Ebrill.

I mi, dydy dathliad ddim yn ddathliad heb fwyd a diod. Nid yw'n ddim syndod i'r Iesu roi i'w ddilynwyr draddodiad, sef y Cymun Sanctaidd, sydd yn bryd o fwyd arbennig pan ddathlwn ei bresenoldeb gyda ni am byth. Alla' i ddim dechrau mynegi pa mor arbennig yw dathlu'r sacrament hwn i mi fel un a ordeiniwyd i weinidogaeth gair a sacrament, yn enwedig yn nhymor y Pasg. Wrth i Synod Cymru barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ein bywyd gyda'n gilydd o dan thema 'Addoli' yng nghynllun 'Ein Galwad' yr Eglwys Fethodistaidd, hoffwn rannu rhai meddyliau am y Cymun. Hoffwn glywed eich meddyliau chithau a buaswn yn falch iawn o gael sgwrs â chi i glywed beth sydd gennych i'w ddweud.

Dywedodd John Wesley ei fod am i'w ddilynwyr ddathlu'r Cymun Sanctaidd mor aml ag oedd yn bosib, hyd ond yn ddyddiol petai modd! Yr unig amser y bu hynny'n bosib i mi oedd yn ystod fy nghyfnod yn hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Yng Ngholeg Queen's, Birmingham, cynhelid gwasanaeth Cymun bob dydd, yn ogystal â gwasanaethau eraill. Ni fanteisiais ar y cyfle (sorri, Mr Wesley!) oherwydd imi gael fy magu mewn traddodiad lle derbyniem y Cymun yn fisol. Tybiwn y buasai cael Cymun yn ddyddiol yn cymryd peth o'i natur arbennig i ffwrdd. Erbyn hyn, rwy'n teimlo'n wahanol: rwyf wrth fy modd â Gwasanaeth y Cymun ac yn gwerthfawrogi pob cyfle i lywyddu.

Pam mae'r sacrament hwn mor arbennig? Yn gyntaf, am ei fod yn ffordd o gyfarfod â'r Iesu: anodd disgrifio hyn ac eto mae mor real. Rhywbeth dirgel ydyw ond fe wyddom, wrth i ni wneud yr hyn a orchmynnodd Iesu i'w ddisgyblion – sef, rhannu bara a gwin i'w gofio – ein bod yn teimlo ei bresenoldeb mewn ffordd neilltuol. Mae Ef ei hun gyda ni wrth i'r bara a'r gwin ddod i ni yn gorff a gwaed Crist. Fel y ddau yn Emaus, cawn adnabod yr Iesu yn nhoriad y bara (Luc 24: 30-31). Ac yn fwy na hynny, cawn arwydd cryf ein bod yn cael ein huno ag ef wrth i ni fwyta ac yfed: daw yn rhan o'n bywyd ni. Yn wir, mewn gwasanaeth Cymun fe wyddom, fel yn nunlle arall, fod Iesu gyda ni.

Peth arall sy'n golygu llawer iawn i mi yw'r ymdeimlad o gymdeithas ac undod sydd mewn gwasanaeth Cymun. Mae Iesu yn ein gwahodd ni i gyd. Cofiaf sylweddoli, mewn gwasanaeth Cymun sawl blwyddyn yn ôl, fod Jwdas wedi rhannu'r Swper Olaf â'r Iesu, er i'r Iesu wybod yn iawn beth roedd ar fin ei wneud. Os oes croeso i Jwdas, mae croeso i bawb sydd eisiau cyfarfod â'r Iesu wrth ei fwrdd! Dydy'r person sy'n llywyddu ddim yn bwysicach na neb arall sy'n bresennol. Mae pawb yn gyfartal, ac yn dibynnu, bob un ohonom ni, ar ras Duw, sy'n llifo atom ni i gyd.

Yn drydydd, gwerthfawrogaf yn fawr iawn y teimlad o gryfder a dderbyniaf o wasanaeth Cymun Sanctaidd. Rwyf yn wan, ond mae'r bara a'r gwin yn fy mwydo, gan roi imi nerth i fwrw ymlaen. Pererinion ydym ni fel Cristnogion ac mae arnom ni angen bwyd ar gyfer ein taith. Athrylith oedd Iesu, yn rhoi pryd o fwyd i'w ddisgyblion yn eu hangen dyfnaf, ac mae'r un bwyd a'r un nerth ar gael i ni heddiw, wrth inni rannu bara a gwin a'i gofio Ef, er mwyn i ni fynd allan a'i rannu â phobl eraill.

Mae llawer iawn mwy y gallwn ei ddweud am y sacrament hwn, ond i ychwanegu un peth arall yn unig: rwyf yn caru'r Cymun oherwydd ei fod yn ddathliad! Mae'n wledd o gariad ac mae'n aberth moliant i Dduw am ein hiachawdwriaeth ac am fywyd newydd yng Nghrist. Mae pawb yn hoffi dathliad; yn y Cymun Sanctaidd mae eglwys Iesu Grist yn dathlu ei gariad mawr tuag at y byd i gyd. Felly, wrth i chi ddathlu a derbyn y bara a'r gwin yn ystod tymor y Pasg eleni, boed i'r Arglwydd eich bendithio chi ag ymwybod cryf o'i bresenoldeb, er mwyn i chi gael eich cryfhau i'w wasanaethu a phrofi llawenydd bywyd llawn.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Wrth i'r flwyddyn 2015 ddirwyn i ben fe gafodd pobl Cymru anrheg amhrisiadwy pan gyhoeddwyd beibl.net gan Gymdeithas y Beibl. Mr Arfon Jones, Caerdydd, yw'r un sy'n gyfrifol am y cyfieithiad newydd hwn o'r ieithoedd gwreiddiol sef Groeg y Testament Newydd a Hebraeg yr Hen Destament. Cefnogwyd Arfon Jones gan *Gobaith i Gymru* gyda'r bwriad cychwynnol o roi'r Testament Newydd ar y we erbyn 1 Mawrth 2002. Erbyn hyn mae'r Beibl cyfan newydd gennym mewn Cymraeg llafar syml. Fel y dywedir yn y rhagair, efallai na fydd yr iaith wrth ddant pawb a bydd rhai yn ansicr o'r arddull, yr eirfa a'r gramadeg a ddefnyddir ynddo. Ond gan mai'r bwriad oedd hybu bobl ifanc i ddarllen Gair Duw a'i ddeall, bydd yn rhaid derbyn bod i'r cyfieithiad hwn ei le ymhlith y Beiblau eraill sydd gennym eisoes. Problem unrhyw gyfieithiad yw cyflwyno'r hyn a ddywedwyd yn wreiddiol heb syrthio i'r demtasiwn o wneud y peth yn esboniad. Mater i arbenigwyr yn y maes fydd barnu a yw beibl.net wedi llwyddo i osgoi'r demtasiwn honno.

William Salesbury oedd y cyntaf i ddarparu cyfieithiad Cymraeg cyflawn o'r Testament Newydd a hynny yn 1567. I ychwanegu at ei gamp roedd eisoes yn yr un flwyddyn wedi cyhoeddi'r Llyfr Gweddi Gyffredin. O Hydref 1567 roedd yn rhaid cynnal gwasanaethau yn y Gymraeg yn y plwyfi Cymraeg eu hiaith. Yn anffodus ni fu'r cyfieithiad yn boblogaidd oherwydd yr orgraff a ffordd od ac unigryw Salesbury o sillafu'r Gymraeg. Gan fod Deddf 1563 yn gorchymyn i gyfieithiad o'r Beibl cyfan gael ei ddarparu, fe ofynnwyd i William Morgan ymgymryd â'r gwaith. Diwygiwyd Testament Salesbury ganddo a bu'n gweithio ar yr Hen Destament gan wneud llawer o'r gwaith yn Llanrhaeadr ym Mochnant.

BEIBL BYW

Mae'r Beibl a gyhoeddwyd ganddo yn 1588 yn gampwaith na welir ei fath eto ac nid gormodedd yw dweud y bu'n fodd nid yn unig i achub iaith ond i achub enaid y genedl hefyd.

Wedi cyhoeddi fersiwn awdurdodedig Saesneg o'r Beibl yn 1611, gofynnwyd i'r Esgob Richard Parry, Llanelwy a Dr John Davies, Mallwyd ddiwygio testun Beibl William Morgan. Credir mai John Davies a wnaeth y rhan fwyaf o'r gwaith a chyhoeddwyd ffrwyth ei lafur yn 1620. Mae'n syn meddwl mai Beibl 1620 fu ar ddefnydd gan bob Cymro nes cyhoeddi'r Beibl Cymraeg Newydd yn 1988!

Yn 1961 ar gais Cyngor Eglwysi Cymru ffurfiwyd panelau o ysgolheigion Beiblaidd a llenyddol i ddechrau ar y gwaith o ddarparu cyfieithiad hollol newydd o'r Beibl i Gymraeg cyfoes. Gwelwyd blaenffrwyth y gwaith pan gyhoeddwyd y Testament Newydd yn 1975 a fersiwn o'r Salmau yn 1979. Ar Fawrth y cyntaf 1988, mewn gwasanaeth yn y Tabernacl, capel y Bedyddwyr yng Nghaerdydd, fe gyflwynwyd y Beibl Cymraeg Newydd i'r genedl.

Daeth yn amlwg erbyn 1995 fod yn rhaid diwygio BCN 1988 er mwyn gwella'r cyfieithiad a chywiro rhai camgymeriadau. Manteisiwyd ar y cyfle i gysoni enwau priod a geiriau technegol a defnyddio iaith gymhwysol. Cyhoeddwyd y Beibl Cymraeg Newydd Argraffiad Diwygiedig yn 2004. Bellach mae gennym fel Cymry bedwar Beibl y gallwn droi atynt wrth ddarllen ac astudio Gair Duw.

Mae'n demtasiwn dyfynnu sawl adnod fel enghraifft o waith y gwahanol gyfieithwyr ond bodlonaf wrth ddwyn eich sylw at adnod 4 yn Salm 8.

Dyma'r adnod fel y'i ceir ym ***Meibl 1588/1620:*** *Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio? a mab dyn, i ti i ymweled ag ef?*
***Beibl Cymraeg Newydd 1988:*** *beth yw dyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano.*
***Beibl Diwygiedig 2004:*** *beth yw meidrolyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu amdano?*
***beibl.net:*** *Beth ydy pobl i ti boeni amdanyn nhw? Pam cymryd sylw o un person dynol?*

Argraffwyd beibl.net yn Tsieina ond nid oes rhaid ei brynu oherwydd mae ar gael ar y We. O deipio beibl.net ar eich ffôn symudol, eich tabled neu gyfrifiadur gallwch ddewis unrhyw lyfr i'w ddarllen. Pan ddaw'r awydd i ffonio cyfaill, beth am gysylltu â'r *"cyfaill gwerthfawrocaf erioed"*. Synnwn i ddim y byddwch yn cael y profiad yn un pleserus, adeiladol a bendithiol iawn.

---

## OLION TRAED

**Hyd draethell hanes**
**myrdd**
**yw'r rhai fu'n troedio.**
**A rhwng eu llanw a'u trai**
**Gwelid olion eu traed**
**yn y tywod llaith**
**Ond – bob tro –**
**deuai llanw arall –**
**gan chwalu'r olion traed**
**yn ddim.**
**Olion pob troed –**
**ond un.**
**A'r olion hynny**
**(o Alffa'r Cread i Omega'r**
**Diwedd)**
**yn gadarn eu ffurf**
**a digymrodedd eu cyfeiriad.**
**Nid unrhyw storm**
**nac ymchwydd na phenllanw cryf**
**allasai'u chwalu.**
**Dim.**
**Oherwydd dwfn oedd yr olion –**
**a'u dyfnder yn fesur clir**
**o drymder y llwyth a gariai:**
**trymder dy bechod di a fi,**
**yn rhoi i'r olion traed eu**
**tragwyddol le.**

***Owain Owain***



# PRIODAS A PHERTHYNAS

Gwelsom lawer o newidiadau mewn cymdeithas ac un mater sy'n mynnu sylw ar hyn o bryd yw agwedd yr Eglwys at briodasau cyfunrywiol. Gofynnwyd i bob Talaith yn yr Eglwys Fethodistaidd gynnal trafodaethau, gan holi tybed a yw'r amser wedi dod i ailddiffinio priodas. Dewiswyd y Chwaer Eluned Williams a'r Parchedig Martin Evans-Jones i agor trafodaeth ym mhob ardal, ynglŷn â phriodas a phobl gyfunrywiol yn benodol a hefyd faterion eraill fel sefyllfa parau di-briod sy'n magu plant, pobl sydd wedi cael ysgariad, ac yn y blaen. Bydd Eluned a Martin yn anfon crynodeb o'r sylwadau i'r Gynhadledd Fethodistaidd yr haf hwn fel y cânt eu hystyried ynghyd â sylwadau'r holl Daleithiau eraill. Dyma bwt o sgwrs rhwng y ddau, wedi iddynt gynnal 11 cyfarfod ar hyd a lled Cymru i roi cyfle i bawb gymryd rhan:



**Eluned:** Er nad oeddwn yn edrych ymlaen at y dasg – dychmygais fod gennym fynydd enfawr i'w ddringo – rhaid i mi gyfaddef fy mod yn teimlo'n freintiedig iawn ac wedi dysgu llawer am ras a chariad Duw. Roedd gonestrwydd y rhai a gymerodd ran yn ganmoladwy iawn. Diolch iddynt. Hoffwn ddiolch i'r Ardaloedd am eu croeso a'u paratoadau ar ein cyfer. Beth oedd yr uchafbwyntiau i chi, Martin?

**Martin:** I mi mae dau uchafbwynt yn sefyll allan: gonestrwydd y tad (yng Ngheredigion) a'r fam (yn Llanrhaeadr ym Mochnant) a agorodd eu calon am eu meibion hoyw a'r cariad oedd yn bodoli rhyngddynt a'u partneriaid. Roedd y teulu i gyd, yn cynnwys ei frodyr, yn gefnogol i'r briodas fyddai'n digwydd yng Nghanada eleni. Ac am y fam, mewn ardal mor wledig, oedd mor ddewr yn sôn am y drafferth a gafodd cymdeithas i dderbyn ei mab, ac yn diolch am gefnogaeth dawel aelodau o'r eglwys iddi hi fel mam – gadawodd hithau argraff ddofn arnaf. Beth amdanoch chi?

**Eluned:** Mae storïau unigolion yn bendant yn sefyll allan. Cofiaf am un wraig a ddywedodd, 'wrth gyrraedd roeddwn yn bendant yn erbyn, ond wedi gwrando ar bawb dwi'n bendant o blaid oherwydd cariad rhwng dau yw'r elfen bwysicaf beth bynnag eu rhyw'. Un peth arall a wnaeth argraff ddofn arnaf oedd y wraig a siaradodd mor emosiynol am ei phoen, ei thristwch a'i heuogrwydd fel aelod o'r eglwys pan chwalodd ei phriodas, a sut y daeth yn ôl i fod yn rhan o deulu'r eglwys; hithau yn sôn am faddeuant a chariad Duw, sydd i bawb. Roedd yn arwyddocaol fod 8 Ardal yn meddwl y dylem ailymweld â datganiad yr Eglwys Fethodistaidd ar Briodas a Pherthynas [a wnaed yn 1992]. Cydnabu amryw eu bod ar bererindod o ddysgu a deall. Martin, gawsoch chi siom o gwbl yn y trafodaethau?

**Martin:** Wel, ceisiais edrych yn uniongyrchol, yn yr Astudiaeth Feiblaidd, ar ddarnau yn yr Hen Destament a'r Newydd y gellid dweud eu bod yn condemnio cyfathrach rywiol rhwng dau ddyn. Ceisiais ddweud fod ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth wedi dod yn fwy goleuedig erbyn heddiw. Ond, mewn dau le yn arbennig, doedden nhw ddim eisiau clywed hynny. Gawsoch chithau siom o gwbl?

**Eluned:** Do. Y niferoedd bychain ddaeth allan mewn rhai ardaloedd, ond teimlaf mai eu colled nhw oedd hynny oherwydd dyfnder rhai o'r trafodaethau. Hefyd, y siom o sylweddoli nad oedd pawb yn medru gwrando a rhoi cyfle i eraill fynegi eu barn. Hoffwn ddiolch am y cyfle a'r fraint o fod yn rhan o sgwrs mor bwysig. Teimlaf fod ein hadroddiad yn adlewyrchu parodrwydd ein Synod i fentro i lefydd anghyfforddus er mwyn ceisio Teyrnas Dduw.

**Martin:** Finnau hefyd. Ac mae ein diolch yn arbennig i Delyth Davies, ein Swyddog Dysgu a Datblygu, am ei gwaith gofalus a rhagorol yn cofnodi'r adborth ym mhob cyfarfod ac am ei chwmni trwy gydol y daith.



Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.

Er cof annwyl am Glyn Jones, Ty'n y Berth, Talsarnau, a hunodd Mai 16eg 1988. Glenys ac Alun £25-00
Mrs B. Jones, Cwmlline £10-00
Mrs A.S. Jones, Bebington £12-00
Mrs M.R. Davies, Ffairfach £04-00
Mrs Siân Humphreys, Penrhyndeudraeth £10-00
Dr Telfryn Pritchard, Evesham £30-00
Dienw £50-00

Cyfanswm £141-00

**SYLWER OS GWELWCH YN DDA FOD ANGEN INNI DDERBYN TANYSGRIFIADAU ELENI ERBYN DIWEDD MAI FAN HWYRAF. NI ELLIR PARHAU I ANFON COPÏAU UNIGOL YN DDI-DÂL DRWY'R POST HEB GYFRANIAD AT GOSTAU'R POST. FELLY, OS GWELWCH YN DDA, ANFONWCH EICH £4 ER MWYN PARHAU I DDERBYN Y *GWYLIEDYDD*!! [DOSBARTHWYR A CHYFRANWYR ERTHYGLAU: DIM ANGEN I CHI WNEUD DIM].**

## GWEITHREDU DROS BLANT

Capel Ebeneser Dolgellau £100-50

Dyma fy nghyfnod i gyda Gweithredu dros Blant, cyfnod o wyth mlynedd, bellach wedi dod i ben. Dymunaf yn dda i'r Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan sydd yn fy olynu yn y gwaith. Dymunaf hefyd ddiolch yn fawr i eglwysi a sawl unigolyn am y gefnogaeth a gefais ganddynt gydol yr amser.
**Rhoddion i Gweithredu dros Blant felly o hyn ymlaen i sylw'r Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan**

**Llety'r Bugail**
**1 Cwrt Eden**
**Gwersyllt**
**Wrecsam**
**LL11 4FF**

**Sieciau yn daladwy fel arfer i Gweithredu dros Blant.**

*Llawer o ddiolch, Robin*

# Planhigion y Beibl

gan W. Arvon Roberts

## 83. Sinamon (Cinnamomum zeylancium)



*Sinamon*

Bydd masnachwyr y ddaear yn wylo a galaru amdani, oherwydd nid oes neb mwyach yn prynu eu nwyddau...eu llwythi o bob pren persawrus...eu llwythi o sinamon, sbeis a pherlysiau...Bydd masnachwyr y nwyddau hyn, a enillodd eu cyfoeth drwyddi hi, yn sefyll o hirbell gan ofn ei phoenedigaeth, yn wylo a galaru...

*Datguddiad 18: 11,12,13, 15.*

Cwymp Babilon sydd yn cael ei ddarogan yma ac un peth a nodir ymhlith ei nwyddau gwerthfawr yw sinamon.

Mae Exodus 30: 23, 25, 26 yn cofnodi fod Duw wedi dweud wrth Moses, "Cymer o'r perlysiau gorau bum can sicl o fyrr pur, a hanner hynny sef dau gant pum deg [tua 3.9kg] sicl o sinamon peraidd...Gwna ohonynt olew cysegredig...Eneinia ag ef babell y cyfarfod..."

Mae'r sinamon yn perthyn i deulu'r llawryfen ac yn tyfu rhwng 6 a 10 metr o uchder. Mae ei ddail yn anystwyth iawn a bytholwyrdd, a'r blodau, sydd yn chwarter modfedd o hyd, yn lliw gwyn melynaidd ac wedi eu dosbarthu yn glystyrau sidanaidd. Mae'n gynhenid i Sri Lanka ac arfordir Malabar ac yn cael ei adnabod yno wrth yr enw *kornuda ganah*. Bu ei darddiad yn gyfrinach glòs gan yr Arabiaid am ganrifoedd a hwy oedd y cyntaf i'w gludo i farchnadoedd y byd. Mae'r goeden yn cynhyrchu sbeis sydd wedi cael ei ddefnyddio'n ddi-fwlch ers dyddiau cynnar Groeg a Rhufain. Daw'r sinamon masnachol o'r rhisgl mewnol a bydd y blagur yn cael ei dorri pan fydd y rhisgl hwn yn pilio'n rhwydd. Yna mae'r stribedi'n cael eu rhwymo o amgylch gwialen denau, a'r croen allanol yn cael ei grafu i ffwrdd. Mae cwilsynnau sinamon, o liw brown euraidd, yn cael eu gwerthu'n fasnachol. Mae'r blas yn siarp ond eto'n ddymunol o bersawrus. Byddai'r Portiwgeaid yn defnyddio'r braster o olew'r sinamon i wneud canhwyllau ac fe'i defnyddir hefyd i sbeisio bwyd a gwin.

## 84. Stacte neu Storax (Styrax officinalis)

Dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, "Cymer berlysiau, sef stacte, onycha a galbanum; ac ynghyd â'r llysiau hyn, thus pur; cymer yr un faint o bob un, a gwna arogldarth a'i gymysgu fel y gwna'r peraroglydd, a'i dymheru â halen i'w wneud yn bur a chysegredig..."

*Exodus 30: 34,35.*

Glud yw stacte sy'n chwysu o rai coed ac roedd yn gydran o'r persawr a offrymwyd mewn lle sanctaidd. Ystyr y gair Hebraeg *nataph* yn llythrennol yw "diferyn hylif". Pren bach, hardd 1-2 metr o uchder yw stace ac mae llawer ohono yn tyfu ar fryniau isaf Israel,



*Stacte neu Storax*

Groeg a Sbaen. Ym mis Mawrth, mae blodau'n ymddangos yn glystyrau o bedwar neu bump gyda'i gilydd, ac mae iddynt arogl hyfryd. Mae ffurf y blodau gwyn, pur yn debyg i'r eirlys, gyda pheillgodau oren llachar yn ymwthio o'r canol. Pan fyddant mewn llawn blodau, bydd y llwyn yn edrych fel petai wedi'i orchuddio â chawod ysgafn o eira. Mae'r dail yn wyrdd gloyw clir ar yr arwyneb uchaf ac yn llwydaidd oddi tanynt. Gwneir toriadau yn y brigau fel y bydd resin hylifol yn llifo allan. Yna caiff ei gasglu'n gorsennau a dyna pam y gelwir y resin yn "storax kalamites". Ar ôl iddo galedu, mae'r stacte yn cael ei grafu i ffwrdd yn bentyrrau afreolaidd cywasgedig. Mae'n cynnwys resin a hefyd asid bensöig sy'n ymdoddi mewn gwin. Byddai'n cael ei ddefnyddio i berarogli pomadau. Caiff ei ddefnyddio gan yr Eglwys Gatholig mewn arogldarth.

## 85. Sycamorwydden (Ficus sycomorus)

Ond atebodd Amos a dweud wrth Amaseia, "Nid oeddwn i'n broffwyd, nac yn fab i broffwyd chwaith; bugail oeddwn i, a garddwr coed sycamor; ond cymerodd yr Arglwydd fi oddi wrth y praidd, a dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Dos i broffwydo i'm pobl Israel."

*Amos 7: 14, 15*



*Sycamorwydden*

Mae'r dyfyniad hwn yn cyfeirio at yr adeg pan oedd Amos yn gofalu am ei ddefaid ac yn gwylio dros berllannau pwysig lle y plannwyd coed ffigys sycamor. Mae'r sycamorwydden hon yn goeden hynod sydd yn cyfuno ffigysen a morwydden; oherwydd hynny mae'n cael ei hadnabod fel y forwydden-ffigysen. Mae'r sycamorwydden y cyfeirir ati yn y Beibl yn hollol wahanol i'r un sydd yn tyfu ym Mhrydain heddiw sef pren o deulu'r gwiniolen. Mae o'r un uchder â'r llwyfanen ac mae'n dwyn ei ffrwyth yn union ar y boncyff a'r canghennau. Ar y ffrwythau melynaidd a'r canghennau ceir smotiau duon. Mae arogl tebyg i ffigysen gyffredin ar y ffrwythau ond mae eu blas yn israddol. Mae'r dail o siâp calon, tebyg i rai'r forwydden. Mae'n goeden hawdd i'w dringo gan fod ei boncyff mawr byr yn gwahanu'n bump neu chwech o ganghennau tew sy'n tyfu'n agos i'r ddaear. Defnyddid y pren ar gyfer adeiladu temlau a lloriau neuaddau ac i lunio cistiau mymïaid neu eirch, a gadwodd mewn cyflwr perffaith am dros 3,000 o flynyddoedd. Ceir sôn am y sycamorwydden yn yr hanes cyfarwydd am Iesu'n dod i mewn i Jericho: "Dyma ddyn o'r enw Sacheus, un oedd yn brif gasglwr trethi ac yn ŵr cyfoethog, yn ceisio gweld prun oedd Iesu; ond yr oedd yno ormod o dyrfa, ac yntau'n ddyn byr. Rhedodd ymlaen a dringo sycamorwydden er mwyn gweld Iesu, oherwydd yr oedd ar fynd heibio y ffordd honno." (Luc 19: 1-4).

# Y GWYLIEDYDD: *yr hanes hyd yn hyn*

gan Ffion Rowlinson

## All y *Gwyliedydd* barhau?

Tua diwedd y 1980au, roedd cylchrediad *Y Gwyliedydd Newydd* (fel y'i gelwid ar y pryd) yn disgyn. Roedd y papur wedi wynebu argyfyngau o'r blaen – bu sôn am ei ddiddymu yn y 1960au, er enghraifft – ond bellach edrychai'n debyg y deuai i ben yn eithaf buan. Yn 1986 roedd angen golygydd newydd a thasg y Parchedig Cyril Lloyd, Ysgrifennydd y Llyfrfa, oedd ysgrifennu at y rhai a enwebwyd er mwyn ceisio penodi golygydd. Dyma'r hanes, yn ei eiriau ei hun: "Gwrthododd y ddau gyntaf, a minnau'n rhagweld mai gwrthod a wnâi'r gweddill. Y trydydd ar y rhestr oedd Owain Owain...Oedd! roedd ganddo ddiddordeb, ond roedd ganddo hefyd gynlluniau di-rif. Gwrandewais arno'n gegrwth ... Roedd ei syniadau newydd a brwd yn heintus." [Teyrnged i Owain Owain, *Gwyliedydd* Chwefror-Mawrth 1994]

## Gwyliedydd Newydd Sbon

Felly, yn Ionawr 1987, cyhoeddwyd rhifyn cyntaf y *Gwyliedydd* ar ei newydd wedd, "yn gant a deg ond yn newydd sbon". Roedd y cynnwys yn fywiog. Digon o bytiau byr, bachog. Colofn farddol dan ofal Tilsli, posau a cholofn arddio yn ogystal â newyddion a cholofn ddefosiynol. Roedd brwdfrydedd Owain Owain yn heintus. Cyn ei farwolaeth annhymig roedd wedi gosod sylfaen gadarn i'r *Gwyliedydd* a pharhawyd y gwaith gan Angharad Tomos ac yna Aled Morgan a Gwyndaf Roberts.

Ein braint ni sy'n golygu'r papur ar hyn o bryd yw cael gofalu am Rifyn 200 y "gyfres newydd" (hynny yw ers Ionawr 1987). Diolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atom gan bobl yr Eglwys Fethodistaidd ac am eich cefnogaeth i'r *Gwyliedydd*. Rydym yn ddyledus yn ogystal i lawer o gyfeillion o wahanol eglwysi sy'n cyfrannu ysgrifau ac yn gwneud sylwadau calonogol. Mae'r *Gwyliedydd* ar gyfer pawb ym mhobman – yn ddarllenwyr y copïau sy'n cael eu dosbarthu o Wasg y Bwthyn yng Nghaernarfon a phawb sy'n dymuno ei weld ar wefan Synod Cymru.

## Beth? Dim Rhyngrwyd?

Mae cenhedlaeth bellach na fedr gofio bywyd cyn y Rhyngrwyd. Yn ôl yn 1877 pan sefydlwyd *Y Gwyliedydd,* nid oedd wrth gwrs na radio na theledu na hyd yn oed ffôn. Roedd newyddiaduron a chylchgronau cenedlaethol ac enwadol yn hynod ddylanwadol a hebddynt byddai'n anodd iawn i bobl mewn gwahanol rannau o Gymru gadw mewn cysylltiad. Golygai sefydlu newyddiadur i'r Wesleaid na fyddai mwyach, chwedl y Parch. John Hughes, Glanystwyth "y naill dalaith mor ddieithr i'r llall ag ydynt o symudiadau yr angylion". [Dyfynnir yn ysgrif y Parch. W. Islwyn Morgan ar hanes *Y Gwyliedydd, Bathafarn* 24 a 25].

> Y GWYLIEDYDD
>
> I'w arddel yn ei urddas – ymrown ni
> I'w noddi yn addas,
> A rhoer i'r golygydd ras
> I daflu popeth diflas.
>
> *Tilsli*

## Darllenwyr, tanysgrifwyr, gohebwyr...

Diolch i'r Ysgol Sul, roedd gwerin lythrennog yn awyddus i ddarllen a thrafod materion pwysig y dydd. Pan gasglwyd tanysgrifiadau i sefydlu Cwmni ('The Gwalia Printing and Publishing Company Limited') yn 1876, er mwyn cael menter *Y Gwyliedydd* ar ei thraed, cyfrannodd llawer o weithwyr cyffredin o'u harian prin. Serch hynny, bu ond y dim i'r papur fethu a diflannu oherwydd anawsterau ariannol yn y blynyddoedd cynnar. Cafwyd cefnogaeth gyson a hael iawn gan ohebwyr a ysgrifennodd erthyglau blaen, adolygiadau a phob math o ysgrifau eraill.

Mor ffodus ydym ni yn yr unfed ganrif ar hugain, gan inni dderbyn nawdd sylweddol o un o gronfeydd Synod Cymru. **Bellach gallwn gynnig y *Gwyliedydd* yn ddi-dâl a dim ond £4 y flwyddyn sydd angen ei dalu am gopi unigol drwy'r post!** Hefyd, er mai ychydig o aelodau sydd gan Synod Cymru yn ein dyddiau ni, a nifer y gweinidogion yn brin iawn, mae ysgrifau a hanesion o safon ardderchog yn parhau i gael eu cyfrannu i'r papur.

## Beth nesaf?


Beth am y dyfodol, felly? A yw geiriau John Wesley, a ddywedodd fod ymroi i ddarllen yn arwain at dwf mewn gras, am fod yr un mor berthnasol a ninnau mewn oes gyfan gwbl wahanol? Mae myrdd o bosibiliadau newydd yn bodoli yn sgil technoleg. Pan oedd *Y Gwyliedydd* yn gant oed yn 1977, meddai'r golygydd, y Parch. George Brewer, wrth sôn am gyfnewidiadau'r ganrif a aethai heibio:

**Trwy'r cyfnewidiadau i gyd mae'r *Gwyliedydd* wedi adlewyrchu bywyd yr eglwysi...ac wedi rhoi cyfle i bobl rannu profiad a dadlau â'i gilydd ac felly ddod yn Gristnogion mwy deallus.**

Ac meddai Enid Morgan, golygydd y *Llan,* oedd ymhlith y rhai a anfonodd gyfarchion i rifyn dathlu canmlwyddiant *Y Gwyliedydd*:

**Tra bo'r gair printiedig yn dal o bwys, tra bo Gair Duw yn dal i fod o bwys i ni, tra bo geiriau Cymraeg yn cael eu siarad, fe fydd cyhoeddi crefyddol Cymraeg yn dal o bwys.**

Diolchwn fod y Gymraeg yn dal i gael ei siarad ac yn parhau yn gyfrwng trafod, ym maes crefydd a llawer maes arall. Gadewch inni lawenhau. Yn llaw Duw y mae'r dyfodol a gair ein Duw ni a saif byth.



# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

## Horeb, Llanrwst

**CINIO CYNNIL**
Yn ôl yr arfer ers rhai blynyddoedd bellach, cynhaliwyd cyfres o Giniawau Cynnil yn eglwysi Llanrwst yn ystod cyfnod y Grawys. Tro Horeb oedd hi ddydd Mercher, 24ain o Chwefror a daeth nifer dda o gyfeillion ynghyd i gefnogi'r digwyddiad. Bydd y casgliadau eleni yn mynd i fudiad Cymorth Cristnogol, Tŷ Gobaith a Hosbis Dewi Sant. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**CROESO**
Fore Sul, 28ain o Chwefror, croesawyd y Diacon Jonathan Miller atom i Horeb. Dyma'r tro cyntaf iddo gynnal gwasanaeth yn Horeb a chafwyd oedfa fendithiol yn ei gwmni.

**DYMUNIADAU GORAU**
Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau a chyfeillion sydd yn fregus eu hiechyd gan ddymuno adferiad iechyd iddynt oll.

*Gohebydd – Eira Jones*

## Ebeneser, Eglwysbach

**GWASANAETH UNDEBOL**
Ar fore Sul Ionawr 24ain, cynhaliwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys Sant Martin i ddathlu'r wythnos weddi dros undod Cristnogol. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y ficer y Parchedig Ginny Burton a phregethwyd gan ein gweinidog y Parchedig Philip Barnett. Yr organydd oedd Mr Roy Kendrick. Wedi'r gwasanaeth mwynhawyd paned o goffi. Diolch i Philip am wneud y trefniadau ac i chwiorydd Sant Martin am y paned.

*Gohebydd – Charles Crapper*

## Sant Paul, Aberystwyth

**COLLED**
Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Megan Hughes ar 12 Chwefror. Roedd hi'n 91 oed ac wedi bod yn wael ers mis Medi. Cafodd ei geni a'i magu yng Nghomins Coch, Sir Drefaldwyn. Yn ei hunangofiant *Doctor by the Sea* disgrifiodd ei brawd, Dr John Hughes, ddylanwad mawr capel Wesleaidd y pentref ar y teulu. Daeth Megan yn nyrs, gan dreulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa hir yn Aberystwyth. Yn 1964 fe briododd â Gwilym Hughes, eglwyswr selog ac aelod o staff Coleg y Brifysgol yn Aberystwyth, a fu farw yn 2005. Roedd Megan ei hun yn aelod o gapel Cymraeg St Paul. Gwasanaethodd am rai blynyddoedd fel un o'r organyddion yn yr hen St Paul a'r adeilad presennol. Ers sawl blwyddyn roedd hi hefyd yn aelod cyson o'r 'Friendship Group' a drefnir gan y gynulleidfa Saesneg. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei chwaer Terry a'r holl deulu.

*Gohebydd - Lionel Madden*

## Bethel, Prestatyn

**Y GYMDEITHAS LENYDDOL**
Testun cyfarfod mis Ionawr oedd 'Thomas Gee a Rhyfel y Degwm' a'n siaradwr gwadd oedd Mr Richard Davies. Crybwyllodd y ffaith fod Thomas Gee wedi cael ei ordeinio'n weinidog ond na ddewisodd gymryd gofalaeth Eglwys - yn hytrach teithiodd o amgylch yr ardal yn pregethu. Dilynodd ei dad i fusnes y wasg. Yna trodd y siaradwr ei sylw at Ryfel y Degwm. Cawsom ddarlun o Thomas Gee yn ei gyfnod ac fel unigolyn a phenteulu. Cawsom yn ogystal gyfle i weld nifer o luniau ohono yn yr ardal.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at ein holl aelodau sydd yn methu mynychu'r oedfaon oherwydd gwaeledd. Cofiwn yn arbennig am rai o'n haelodau sydd mewn cartrefi henoed – Mr John Herbert Williams, Mrs Gwen Parry Jones, Mrs Joyce Parry, Mrs Mair Roberts a Mrs Gwyneth Hughes.

**GWASANAETH TEULU**
Mwynhawyd gwasanaeth arbennig ddechrau mis Chwefror yng nghwmni ein gweinidog y Diacon Jonathan Miller. Mae'n bleser cael addoli mewn dulliau newydd. Cawsom emynau gyda symudiadau, stori i'r plant gan Mr Siôn Huw Davies a ffilm am Iesu'n Tawelu'r Storm.

**LLONGYFARCHIADAU**
Pob dymuniad da i Liam a Manon ar enedigaeth eu mab bach Noa Dafydd. Dim ond wythnos oed oedd Noa pan ddaeth i'w oedfa gyntaf ym Methel – a phawb wrth ei fodd! Dymunwn bob bendith i'r teulu bach newydd.

*Gohebydd – Gwenda Humphries*

## Tabernacl, Llanfyllin

**SUL Y GWAHANGLEIFION**
Ar fore Sul, Ionawr 31ain, ymunodd eglwysi'r dref mewn gwasanaeth yng nghapel y Tabernacl i nodi Sul y Gwahangleifion. Arweiniwyd yr oedfa gan Tom Ellis gydag aelodau'r gwahanol eglwysi'n cymryd rhan. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned yn y festri ar ddiwedd yr oedfa. Anfonwyd yr offrwm, ynghyd â rhoddion, sef cyfanswm o £206, at waith Cenhadaeth y Gwahangleifion sydd yn helpu i ailadeiladu Nepal yn dilyn daeargrynfeydd erchyll yno y llynedd, pryd y lladdwyd bron i 9,000 o bobl ac y difrodwyd dros filiwn o gartrefi. Gwnaethpwyd y trefniadau gan Mair Ellis, cynrychiolydd lleol y Genhadaeth.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mrs Betty Ellis sydd wedi dod yn hen nain yn ddiweddar. Dymunwn hefyd wellhad llwyr a buan i Betty yn dilyn ei llawdriniaeth.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs Eurwen Jenkins a gollodd chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar a hefyd â'r Parchedig Gwyndaf Richards a gollodd fodryb. Cydymdeimlwn yn ogystal â theulu Mrs Eirlys Jones Parc a fu farw'n ddiweddar, yn arbennig felly â'i merch Janet.

**DYMUNIADAU GORAU**
Da gweld Mrs Margaret Blainey yn ôl gartref ac yn y capel ar ôl ymweliad byr â'r ysbyty yn yr Amwythig.

*Gohebyddion – Robin Hughes a Mair Ellis*

## Pont Robert

**GOFALAETH BRO CAEREINION**
Tro Pont Robert oedd cynnal Gwasanaeth Bro Caereinion a phleser oedd cael cwmni'r Parchedig Jennie Hurd gyda ni i gynnal gwasanaeth Dechrau'r Flwyddyn. Y Parchedig Peter Williams wnaeth y croeso a'r diolch a chymerwyd y rhannau arweiniol gan rai o aelodau'r capel. Canwyd emyn gan Llinos, Bronwen, Ogwyn a Tegwyn. Bryan Jones wnaeth y trefniadau a Bronwen Gwalchmai oedd yr organydd. Roedd aelodau'r Annibynwyr wedi ymuno â ni a mwynhaodd pawb sgwrs dros baned a oedd wedi ei threfnu gan y chwiorydd. Diolchodd John Ellis am y croeso.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Tegwyn a Gwen Jones, Penwtra, sydd wedi colli perthynas yn ddiweddar.

**DIOLCH**
Ar nodyn personol, rwyf finnau am ddiolch i aelodau'r capel a ffrindiau am eich ymholiadau tra bûm am ymweliad byr ag Ysbyty'r Amwythig. Cofion atoch a diolch yn fawr.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

## Eglwys Unedig Colwyn

**CYNGERDD NADOLIG YN HOREB**
[Ymddiheuriadau nad ymddangosodd hanes y cyngerdd yn y rhifyn diwethaf. – Gol.]

Unwaith eto cynhaliwyd Cyngerdd Carolau Elusennol er budd y ddwy Hosbis leol sef Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Dros y saith Nadolig diwethaf, mae'r achlysur wedi codi dros £10,000 i'r

CAPEL NI

YN EGLWYS IESU

elusennau hyn. Y tro hwn, cefnogwyd y Cyngerdd gan Gôr Meibion Colwyn, Plant Ysgol Bod Alaw a'r unawdydd Sioned Alaw Huws. Arweinydd y Cyngerdd oedd y Parchedig Philip Barnett gyda Mr Gwyn Jones wrth yr organ. Yn ystod y noson cafwyd apêl ac anerchiad byr gan y Parchedig Jennifer Hurd. Er ei bod yn glawio'n ddi-baid ar y noson, cafwyd cynulleidfa o 250. Cyfrannwyd £700 yn y casgliad ac ychwanegwyd at hyn gan Horeb fel bod y cyfanswm yn £1280, £640 yr un i'r ddwy Hosbis. Diolch i bawb am gefnogi'r achosion da hyn.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Mrs Dora Jones a ddaeth yn hen nain am y pedwerydd tro pan anwyd Amelia ddechrau Chwefror.

**PEN-BLWYDD**
Dymuniadau gorau i Mrs Edith Jones sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 yn ystod mis Mawrth.

**GWASANAETHAU**
Braf iawn oedd croesawu'r Diacon Jonathan Miller atom i gynnal dau wasanaeth yn Nisgwylfa yn ystod Ionawr a Chwefror.

**DAMWAIN**
Dymunwn wellhad buan iawn i Gwenllian a gafodd godwm cas yn ei gardd yn ddiweddar. Ar yr un pryd anfonwn ein cofion cynhesaf at bob un o'n haelodau sydd yn wael yn eu cartrefi neu mewn cartrefi nyrsio.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**SWYDD NEWYDD**
Dymunwn yn dda i Gareth Thomas sydd wedi dechrau swydd newydd yng Ngholeg Menai.

**AELOD NEWYDD**
Nos Sul Ionawr 17 cawsom wasanaeth i Adnewyddu'r Cyfamod dan ofal y Diacon Stephen Roe. Fel rhan o'r gwasanaeth derbyniwyd Robyn Parry yn aelod yma yn Nhrefor. Fe'i derbyniwyd fel aelod o enwad Cristnogol arall i fod yn aelod o'r Eglwys Fethodistaidd gan ei fod eisoes yn aelod yng nghapel Carmel. Dyma'r tro cyntaf i ni dderbyn aelod deuol. Mae Robyn wedi bod yn mynychu'r oedfaon yn ffyddlon iawn ac yn cyfrannu'n hael i'r achos ym mhob ffordd. Croesawn ef yn gynnes iawn i'n plith.

**PROFEDIGAETH**
Cydymdeimlwn ag Arthur ac Ann Jones a'r teulu yn dilyn marwolaeth mam Arthur ym Modedern.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Bethel, Rhiwbeina

**GWEITHGAREDDAU**
Fore Mawrth 2il Chwefror, croesawyd Mair Robbins, cyn-bennaeth Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd i'n plith a chafwyd sgwrs ganddi am ei gwyliau yng Ngwlad yr Iâ. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan chwiorydd y capel wedi'r sgwrs.

Ar Chwefror 7fed aeth nifer o chwiorydd i sinema Nantgarw i fwynhau perfformiad ar y sgrin o'r opera *La Traviata* gan Gwmni Tŷ Opera Llundain.
Ar Chwefror 25ain cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ym Methel o dan arweiniad y Parchedig Alan Pickard.
Ar Chwefror 27ain bu rhai o'r aelodau yng Nghyngerdd Awr Ginio capel Beulah i wrando ar gantorion o Goleg Cerdd a Drama Caerdydd.

**PROFEDIGAETH**
Yn 43 mlwydd oed bu farw Lowri Heledd Francis yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd ar Chwefror 14eg. Roedd Lowri'n ferch i Gwenda Francis, ysgrifennydd Bethel, a'r diweddar Dennis Francis. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i mam Gwenda a'i brodyr Geraint, Dewi a Trystan.

*Gohebydd – Gwilym E. Roberts*

## Ebeneser, Caernarfon

**DYMUNIADAU GORAU**
Fel eglwys anfonwn ein cofion cynhesaf at Merfyn a Mary Christine Jones, gan ddymuno adferiad iechyd i Merfyn. Ein cofion hefyd at Glenys Williams ac at Aelwen Morris a gafodd driniaeth arall i'w choes - y misoedd diwethaf wedi achosi llawer o bryder a phoen iddi. Bu Joe Williams, Tŷ Capel, yn gaeth i'w gartref gan iddo ddioddef o niwmonia; collwn ei gwmni yn fawr.

**LLONGYFARCHIADAU**
Mae'n bleser cael llongyfarch Philip ac Asneth Chadwick ar achlysur dathlu eu priodas aur. Llongyfarchiadau hefyd i Eira Owain ar enedigaeth gor-wyres sef Alaw Llwyd, ac i Mati Jones ar enedigaeth gor-ŵyr sef Jasper Dylan.

**BEDYDD**
Bedyddiwyd Caitlin Hanlon Hughes, merch farch Gwyndaf a Jennifer yn ddiweddar. Daeth amryw o ffrindiau'r teulu ynghyd i'r gwasanaeth bedydd o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams. Mae brawd mawr Caitilin, sef Darah, newydd ymuno â'r Ysgol Sul ac rydym yn falch iawn o'i gwmni.

**CYDYMDEIMLO**
Yn Ebeneser, o dan arweiniad y Diacon Stephen Roe a'r Parchedig Gwynfor Williams, fe gynhaliwyd gwasanaeth angladdol y ddiweddar Eryl Haf Thomas. Yr organydd oedd Basil Thomas. Cafwyd portread cyflawn gan ei merch Angharad o wraig ddawnus, siriol, fywiog a ffres. Roedd gan Eryl gysylltiadau cryf ag Ebeneser oherwydd bu ei thaid y diweddar Barchedig R. Môn Hughes yn weinidog yma. Dros y blynyddoedd hefyd arferai'r teulu ddod i'n Cyfarfodydd Pregethu a hefyd i'r gwasanaethau ar fore Gwener y Groglith. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

*Gohebydd - Branwen L. Edwards*

## Preswylfa, Cyffordd Llandudno

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Mrs. Iris Jones sydd wedi colli perthynas yn Ffrainc.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**
Yn Eglwys Preswylfa y cynhaliwyd ein cyfarfod eleni a chawsom fendith yn yr oedfa hon a baratowyd gan chwiorydd Cristnogol Ciwba, ar y testun "Derbyniwch blant. Derbyniwch fi". Cymerwyd rhan gan chwiorydd Capel Coffa, Preswylfa a Phensarn. Yr arweinydd oedd Eirian Jones a'r organydd oedd Jane Jones.

*Gohebydd – Eirian Jones*

## Ebeneser, Dolgellau

**DIFROD**
Bu'n rhaid atgyweirio rhan o do'r Capel oedd wedi cael ei ddifrodi gan y tywydd garw ddechrau'r flwyddyn. Yn ffodus, ni chafodd neb ei anafu.

**THEMA ADDOLIAD**
Yn Ionawr cawsom y cyfle i groesawu Mrs Delyth Wyn Davies, Swyddog Dysgu a Datblygu Synod Cymru, i'n plith i arwain oedfa. Mae hyn yn rhan o'r cynllun i roi sylw eleni i thema addoli, un o bedair thema 'Ein Galwad'.

**EDRYCH YMLAEN**
Llawenhawn wrth glywed fod y Diacon Stephen Roe wedi'i benodi i wasanaethu yn Ardal Dde Gwynedd ac Ardal Meirion a Dyfi. Edrychwn ymlaen at ei groesawu, ynghyd â'i wraig Angela a'r teulu, yn hwyrach yn y flwyddyn

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

# A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13


Dyma adnod a welsom ym mhob rhifyn o'r ***Gwyliedydd*** ers dechrau'r gyfres newydd yn 1987. A dyma atebion rhai o'r darllenwyr pan ofynnwyd iddynt, 'Beth mae'r adnod yn ei olygu i chi?'

Llawenydd yw cael llongyfarch y *Gwyliedydd* ar ddathlu cyrraedd yr ail ganfed rhifyn a phriodol iawn oedd cynnwys yr adnod o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid (15:13) ym mhob un o'r rhifynnau. Y mae Paul yma yn pwysleisio Duw Gobaith, er iddo gydnabod nad yw y daith bob amser yn rhwydd. Er bod Paul yn tybio fod gan y Saint yn Rhufain lawenydd a thangnefedd, nid oeddent wedi profi eu llawn botensial. Duw sydd yn rhoi hyder inni barhau mewn gobaith drwy ffydd a thrwy nerth yr Ysbryd Glân, hyd y gorlifa'r gobaith. Y gobaith hwn a rydd nerth i gyfnodolyn Synod Cymru barhau i rannu'r newyddion da ag eraill, o fewn ein Heglwysi ac fel rhan o Eglwys Iesu Grist. Pob dymuniad da ar gyrraedd y garreg filltir arbennig hon a boed inni weld parhad y *Gwyliedydd*. Pob bendith ar waith y golygyddion diwyd a gweithgar. Cynnyrch gobaith yw hyn.

***Y Parchg. J Gwyndaf Richards***

O'r rhifyn cyntaf mae'r *Gwyliedydd* wedi seinio nodyn o obaith ac mae'r adnod hon yn adlewyrchu hynny. Menter ffydd a gobaith oedd sefydlu'r papur mewn cyfnod anodd i'r eglwys a'r ffydd Gristnogol. Roedd y rhifyn cyntaf yn bositif a gobeithiol yn ei agwedd ac mae'n dda gweld bod yr agwedd honno wedi parhau yn y *Gwyliedydd* hyd heddiw.

***Lionel Madden***



Flynyddoedd lawer yn ôl bellach (yn y 1980au) yr arfer ar ddydd Sadwrn yn ein tŷ ni oedd dysgu adnod i'm plant, Ruth ac Aled Price, gogyfer eu hadrodd yn y gwasanaeth ar fore Sul ym Mrunswick, Y Rhyl. (Bellach gwaetha'r modd mae'r adeilad wedi'i ddymchwel a fflatiau wedi cymryd lle'r capel ar y safle cysegredig yma.)

Un o'r adnodau sydd ar gof a chadw (o'r hen – a hefyd fy hoff – gyfieithiad) yw Hebreaid 11 adnod 1 sef:

"Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu GOBEITHIO, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled".

***Siân Price***

Dyma adnod! Dyma frawddeg! Un Duw sydd, felly petai'r byd cyfan a phobl o bob crefydd ond yn mabwysiadu'r adnod hon yn arwyddair i`w cred, byddai'r byd yn edrych yn wahanol a'i gyflwr yn wahanol iawn hefyd. Gorlifo â gobaith: y mae fy nghwpan yn llawn.

***Y Chwaer Eluned Williams***

I'r byd i gyd dyma'r  
Gair  
i newid byd anniwair,  
Duw ffynhonnell pob gobaith  
a her Duw sy'n llywio'r daith,  
trysor Ei egwyddorion  
yw bywyd llawn a byd llon,  
Rhown glod i'r Ysbryd Glân  
Yn siŵr ein tŵr a'n tarian.

***Robin Hughes***

Cawsom y pleser o groesawu Noa i'r teulu ychydig wythnosau yn ôl - rhodd werthfawr gan Dduw ac ŵyr bach arall i ddod â llawenydd mawr i ni. Mae'n amser i ddathlu, gwerthfawrogi a llawenhau. Mae Noa wedi bod yn yr Ysgol Sul yn barod – er ei fod yn rhy fach i ymuno yn y gweithgareddau!

Rydym wedi bod yn astudio stori Jona a'r morfil yn Ysgol Sul Bethel [Prestatyn] ac rwy'n gweld cysylltiad agos rhwng stori Jona a'r adnod hon sy'n sôn am 'ffynhonnell gobaith'. Roedd Jona'n meddwl ei fod yn gwybod yn well na Duw. Rhedodd i ffwrdd yn lle gwrando ar Dduw ond gwyddom, er iddo wynebu trafferthion mawr, i bopeth ddod yn iawn iddo yn y diwedd, trwy weddi.

Pan ysgrifennodd Paul ei lythyr at y Rhufeiniaid, ei ddymuniad oedd iddynt fyw gyda'i gilydd mewn heddwch. Gofynnodd iddynt ystyried eraill a'u helpu a'u hannog i fod yn amyneddgar wrth edrych ymlaen i'r dyfodol. Uchafbwynt y bennod yw adnod 13 ble mae'n dymuno y bydd Duw yn llenwi eu bywydau â llawenydd, heddwch a gobaith.

Pa ddymuniad gwell allwn ninnau ei gael, ar gyfer Noa a'i ffrindiau bach yn yr Ysgol Sul. Nhw yw ein gobaith at y dyfodol ac arnom ni y mae'r cyfrifoldeb o ddangos iddynt mai Duw sy'n rhoi inni obaith. Ef sydd yn ein harwain i brofi llawenydd gan fyw mewn heddwch gyda ni ein hunain a'n cyd-ddyn.

***Gwenda Humphries***



Mae gobaith yn rhan annatod o ddilyn y ffydd Gristnogol. Heb obaith heb ddim. Gobaith sydd yn peri inni godi bob bore i wynebu beth bynnag a ddaw gyda ffydd. Mae cael ffydd yn ein gwneud yn bobl obeithiol: gweld y cwpan yn hanner llawn yn hytrach nag yn hanner gwag. Gweld cyfle mewn anghydfod. Mewn oes o gyni pan welwn greulondeb ac annhegwch, rhaid wrth obaith.

Er y tristwch o weld cynulleidfaoedd yn lleihau a chapeli yn cau, rhaid wrth obaith er mwyn sicrhau dyfodol, boed hynny o uno ag enwadau eraill neu ffordd arall o addoli.

Mae ffydd a gobaith yn annatod. Fel y dywedodd yr Iesu wrth y wraig a gyffyrddodd â'i fantell (Mathew 9:22): "Cod dy galon, fy merch; y mae dy ffydd wedi dy iacháu di."

Trwy ffydd a gobaith edrychwn ymlaen yn gadarnhaol i'r dyfodol.

***Eira Jones***

Erys fy ffydd a'm gobaith yng nghariad Duw yn Ei fab, Iesu Grist. Llawenydd pennaf bywyd yw ceisio Ei garu'n ôl, ac ymroi i'w wasanaethu. "Tra'm teflir yma ac acw ar anwadal donnau'r byd", bydd yr Ysbryd Glân yn fy nghynorthwyo i bwyso ar yr Iesu atgyfodedig, ar dragwyddol graig yr oesoedd, y fan na sigla byth. Mae llawenydd a thangnefedd yn fy nghalon oherwydd y gwn na all ddim fy ngwahanu i oddi wrth gariad Duw, yr hwn sydd yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.


***Debbie Roberts***

Dyma adnod bwysig ac allweddol iawn, sydd yn addas ar gyfer pob oes. Edrychwn ar y geiriau ynddi – gobaith, llawenydd, tangnefedd, ffydd – geiriau hynod o bwysig ar gyfer ein bywydau.

Deuthum ar draws y cwpled hwn ryw dro, yr hoffaf ei ddyfynnu weithiau mewn anerchiadau:  
"I'r neb fo brin ei obaith  
Hir a dwys fydd pob rhyw daith" [T. Gwynn Jones]

A hir a dwys y daith heb lawenydd, tangnefedd a ffydd, hefyd. Duw sy'n rhoi gobaith inni fedru arfer ein ffydd wrth wynebu pob sefyllfa mewn bywyd, boed lawen neu drist.

***Elizabeth Jones***



Credaf mai dyma yw hanfod pob crefydd sy'n seiliedig ar gariad. Un o ddyheadau'r bod dynol yw medru darganfod yr ateb sy'n arwain at fywyd cyflawn, llawen, iach a bodlon. Wrth gydio yn llaw ein Duw, derbyniwn y gobaith y gall pob unigolyn anelu at dderbyn tangnefedd a deall gwir ystyr a gwerth ein bodolaeth.

***Arwel Roberts***

Dwi wedi cael fy magu i fod yn greadures bositif a hynod obeithiol, gan fy nhad a fagodd dri ohonan ni wedi trasiedi fawr o golli ein mam yn ifanc.

Dwi yn obeithiol am y dyfodol, am y ffydd a Christnogaeth yn gyffredinol. Dwi'n dal i gofio geiriau fy nhad 'Cofia mai mewn cwmnïoedd bach y byddai Iesu yn cael bendith a thrwy aelodau'r cwmni bach yr ymledodd ei ddylanwad ar draws byd cyfan'.

***Gwenda Davies***

Erys geiriau'r fendith hon yn ganol llonydd i derfysg ein bywyd a'n byd. Yn ystod stormydd a threialon bywyd maen nhw'n ein hangori yng nghariad Duw. Y cwbl sydd angen ei wneud yw cymryd y llaw estynedig, dal ein gafael yn dynn a cherdded ymlaen. Mi ddaw eto haul ar fryn. A llawenydd, a thangnefedd, ond inni ddyfalbarhau. Diolch fo i Dduw am sicrwydd ei gariad tuag atom. Nertha ni bob dydd, i weld y llaw yn cael ei hestyn.

***Ellie Jones***

Yn ystod y gwasanaeth yn Eglwys Unedig Colwyn fe drafodwyd y cais am ymateb i'r adnod hon, gyda'r aelodau a'r Parchedig Arglwydd Roger Roberts. Y farn gyffredinol oedd mai gobaith sydd yn ein cynnal o ddydd i ddydd ac yn ein cadw yn y ffydd. **Mae un o'n haelodau yn cadw'r adnod yn ei phwrs ers blynyddoedd maith**. Awgrymodd Roger mai gobaith sy'n cynnal y ffoaduriaid o Syria yn eu hymdrech i geisio bywyd gwell.

***Rhiannon Jones ar ran Eglwys Unedig Colwyn***

# CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## Y Triniti, Pontarddulais

**CYFARCHION**
Rydym fel Eglwys yn danfon ein cyfarchion cynnes at Margaret Bowen a Janet Mair Jones, chwiorydd a fu gynt yn selog i wasanaethau'r Sul ond sydd bellach yn fregus eu hiechyd. Yn yr un modd rydym yn danfon ein dymuniadau gorau at Glenys Morrison ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 fis Medi diwethaf.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Manon Owen ar ei phenodiad i swydd athrawes mewn ysgol gynradd Gymraeg yng Nghaerdydd, hyn ar ôl ennill gradd BA ym Mhrifysgol Caerdydd (gydag anrhydedd mewn Saesneg) a chael Tystysgrif Addysg i ôl-raddedigion. Llongyfarchiadau hefyd i Aled Owen ar lwyddo yn yr Arholiadau Lefel A ac sydd bellach yn paratoi i fynd i'r coleg; i Daniel Davies, ŵyr i Avril Davies, ar ennill gradd BSc ym Mhrifysgol Caerdydd (gydag anrhydedd mewn Cyfrifyddiaeth); i Aled Thomas, mab i Melville Thomas, ar ennill gradd BSc ym Mhrifysgol Abertawe (gydag anrhydedd mewn Mathemateg); ac i Sarah Griffiths, merch i Lisabeth Griffiths, ar ennill gradd LLB ym Mhrifysgol Caerdydd (gydag anrhydedd yn y Gyfraith).

**TOSTRWYDD**
Profwyd salwch gan sawl aelod. Bu Monica Williams yn sâl am gyfnod yn yr ysbyty, ac, er ei bod wedi gwella tipyn erbyn hyn, mae'n parhau i fod dan ofal arbenigwr. Estynnwn ein dymuniadau gorau at Betty Lewis Jones am wellhad buan a llwyr yn dilyn salwch diweddar. Mae Raymond Thomas yn parhau i ymweld â'r ysbyty yn dilyn triniaeth ar y galon. Bu Helen Thomas, Joan Thomas, Jonathan Davies (ŵyr Avril Davies), Melville Thomas a John Evans (gŵr Einir Evans) o dan ofal llawfeddyg dros y flwyddyn ddiwethaf, a braf dweud eu bod i gyd yn gwella erbyn hyn. Mae Mair Aubrey Thomas wedi dioddef aml gwymp yn sgil torri ei choes beth amser yn ôl, ond yn dal yn ffyddlon i wasanaeth y Sul. Yn ogystal, mae Ronald Jones yn dal i fod dan ofal yr ysbyty ond da gweld ei fod yn cadw ei ysbryd yn uchel.

Rydym hefyd fel Eglwys yn dymuno'n dda i Eirianwy Morgan, cyn-aelod ffyddlon o'r Triniti sydd ar hyn o bryd yn cael gofal yng nghartref yr henoed yn Llanelli. Cofion yn ogystal at Wenda Griffiths (Morris gynt), un â'i gwreiddiau'n ddwfn yn hanes y Triniti, sydd yn cadw cysylltiad agos â'r Eglwys ac yn cyfrannu'n hael.

**MARWOLAETHAU**
Trist oedd colli Gwenlais Williams, un a fu'n weithgar dros yr achos yn y Triniti ar hyd y blynyddoedd. Hefyd bu farw Arthur John Thomas, un a fagwyd yn y Triniti ac a fu'n barod iawn, yn sgil arbenigedd teuluol, i estyn cyngor ar faterion ynglŷn â'r adeiladau a'r tir o amgylch y fynwent.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad dwysaf i'n gweinidog y Parchedig Ian Morris a'r teulu, yn dilyn marwolaeth tad Ian a oedd yn byw yn Amlwch, Môn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf bu Rhiannon Hopkin Brown yng nghartref yr henoed ym Mhontarddulais ond yna ddiwedd mis Ionawr aethpwyd â hi i'r ysbyty; ar Chwefror 1af daeth y newyddion trist ac annisgwyl ei bod wedi ein gadael. Roedd Rhiannon yn un o blant y Mans, yr hynaf o ddau blentyn y diweddar Barchedig a Mrs John Hopkin Morgan. Treuliodd ei dyddiau ysgol yn ardal Aberystwyth ac oddi yno aeth i Goleg y Brifysgol Aberystwyth a graddio yn y Gymraeg, nid yn annhebyg i'w mam, Phoebe Hopkin Morgan, a raddiodd hefyd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Bangor ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Bu gyrfa Rhiannon ym myd llyfrau; yn ei swydd olaf cyn ymddeol roedd yn Is-lyfrgellydd Coleg y Brifysgol, Abertawe. Wedi i'r Parchedig J H Morgan ymddeol ymgartrefodd y teulu yma ym Mhontarddulais a pharhau yn gefn i'r achos yn y Triniti. Bu brawd Rhiannon, y diweddar Gerallt Hopkin Morgan, yn drysorydd i'r Eglwys am dros chwarter canrif. Person tawel a phwyllog, diymhongar a moesgar oedd Rhiannon ac yn gefnogol i weithgareddau'r Eglwys ar hyd y blynyddoedd, yn organydd ffyddlon ac yn rhoi yn hael o'i doniau. Mae'r golled yn un fawr a chydymdeimlwn ag Eirianwy Morgan (chwaer yng nghyfraith) a theulu a ffrindiau Rhiannon.

**ADDOLI**
Mae ein Gweinidog, y Parchedig Ddr Ian Morris, yn fugail ar bedair Eglwys Gymraeg mewn ardal eang yn Sir Forgannwg, sef, Creunant, Rhigos (Hirwaun), Caerau (Maesteg) a Triniti (Pontarddulais) ac yn gweithio'n ddyfal iawn o fewn eu cymunedau. Rydym hefyd yn ffodus o gael cefnogaeth eraill sydd yn eu tro yn arwain ein gwasanaethau; mawr yw ein dyled i Siân Lewis, Sandra Storch ac Eifion Davies ac i'r Parchedig Ganon A Meats.

Cawsom wasanaethau i'n hysbrydoli wrth inni ddathlu Gŵyl y Geni sef Oedfa Garolau ac yna gyflwyniad o Ddrama'r Geni. Trefnwyd ac arweiniwyd y cyfarfodydd gan Einir Evans a gwerthfawrogwn yn arbennig ymdrech a chyfraniad ei hwyrion Manon ac Aled Owen. Roedd gwasanaeth Sul olaf y flwyddyn o dan ofal y Gweinidog pan weinyddwyd y Cymun ac yn ei anerchiad pwysleisiodd bwysigrwydd ac addasrwydd gweddi a myfyrdod yng ngoleuni digwyddiadau'r Nadolig.

**Y GWEINIDOG**
Rydym yn ymfalchïo'n fawr yng nghyfraniad ein Gweinidog y Parchedig Ddr Ian Morris i waith yr Eglwys ac yn wir i'r gymuned ehangach. Mae'n swyddog ecwmenaidd a Dirprwy Gadeirydd Synod Cymru. At hynny, mae'n swyddog materion rhyng-ffydd, sef un o'r testunau a astudiodd pan oedd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caergrawnt. Oherwydd y cefndir hwn fe'i hapwyntiwyd yn aelod o Fforwm Ryng-Ffydd Llywodraeth Cymru, dan arweiniad Prif Weinidog Cymru ei hun. Ers 2013 bu'n Llywodraethwr ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gŵyr a hefyd yn gwirfoddoli yn yr ysgol i hybu sgiliau llythrennedd disgyblion drwy sesiynau darllen. Mae hefyd yn gweithio'n ddyfal gydag ysgolion cynradd Pembre a Rhigos gan wirfoddoli gyda gwasanaethau boreol a gweithgareddau eraill yn y ddwy ysgol. Mae'n gweithio fel Caplan i Heddlu Dyfed Powys, wedi ei leoli yng Ngorsaf Heddlu Llanelli. Mae'n Gaplan hefyd i Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ac yn gweithio'n ddyfal a phrysur yn ystod wythnosau'r prif sioeau.

**ADEILADAU**
Mae gwaith sylweddol yn aros i'w gyflawni ar yr adeiladau, tu mewn a thu allan, ac mae angen gosod pum ffenestr newydd. Gydag ymdrech sylweddol gan y Gweinidog, yn ystod 2015, llwyddwyd i ddiogelu arian grant i gwrdd â chostau'r gwaith. Y cwmni sydd wedi ei benodi i wneud y gwaith yw W Storch a'i Fab ac yn barod maent wedi gosod y sgaffaldau o amgylch yr adeilad. Y Gweinidog a Raymond Thomas (Ysgrifennydd Eiddo) sydd ar ran yr Eglwys yn gofalu am yr agwedd hon ar bethau.

*Gohebydd – J R Jones*

## Horeb, Croesoswallt

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
Bu cyfarfod yn Horeb ar Ionawr 18fed o dan lywyddiaeth Melfyn Evans, pan groesawyd Arwyn Jones, Glan Morlas, atom i ddangos hen luniau ar DVD. Gwelsom wynebau annwyl sydd wedi ein gadael bellach, ac wynebau eraill yn dangos fel mae'r blynyddoedd yn mynd ymlaen (ambell ben gwyn neu foel erbyn heddiw!). Roedd hon yn noson ddifyr dros ben.

**DATHLU GŴYL DEWI**
Cawsom y pleser o groesawu Mair Penri, John Ifor a Beryl o ardal y Bala i'n

diddanu ar nos Lun y 29ain o Chwefror yn festri Seion. Paratowyd y bwyd gan Howard Martin a'i gwmni. Cawsom noson arbennig. Llywydd y noson oedd Tom Davies ac roedd y trefniadau yng ngofal Hefin Jones.

**CARTREF NEWYDD**
Mae'r Parchedig a Mrs Gwilym O. Jones wedi symud i fyw mewn fflat yn Regents Court. Rydym yn gobeithio y bydd Mrs Margaret Jones yn gwella ac yn cryfhau, ac y bydd y ddau yn hapus yn eu cartref newydd.

**BRYSIWCH WELLA**
Gwellhad buan i Mrs Mary Davies, Bridgeman Road, sydd gartref o'r ysbyty ac yn cryfhau. Anfonwn ein cofion at ein cyd-aelodau sydd yn methu dod i'r capel.

**DIOLCH**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf cawsom y pleser o groesawu'r cyfeillion canlynol i arwain ein haddoliad:- Y Parchedigion Gwilym O. Jones, Dilys Jones a Rhys ap Ogwen Jones; Mrs Beryl Vaughan, Miss Rhoswen Charles a Mr Dafydd Barker Jones. Cawsom hefyd Gyfarfod Canu dan arweiniad Mrs Lynda Thomas.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## Peniel, Llanelwy

**DIOLCH**
Gwerthfawrogwn y cyfle i addoli yma ym Mheniel a hefyd gyda chynulleidfa Pendref, Dinbych. Diolchwn i'r gweinidogion a'r lleygwyr a arweiniodd y gwasanaethau. Calonogwyd ni gan ymweliad y Parch. Ddr Jennie Hurd. Cawsom hefyd gyfarfodydd gweddi bendithiol iawn.

**LLONGYFARCH**
Mae gennym achos i lawenhau o glywed fod Wil Roberts, un o'n cyn-aelodau, wedi ennill Doethuriaeth mewn Ffiseg ym Mhrifysgol Caerdydd.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Sheila Thomas ar ddod yn hen nain pan anwyd Bleddyn bach yng Nghaerdydd.

**GWEITHGAREDDAU AR Y CYD A CHYD-ADDOLI**
Yn ystod y Grawys, bydd pob eglwys yn lleol yn paratoi Cinio Cynnil yn ei thro, gyda'r elw'n mynd at achos da, er enghraifft Gweithredu dros Blant. Cawsom gyfle hefyd i ymuno mewn gwasanaeth dwyieithog yn y Gadeirlan ar Ddydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Er nad yw'r niferoedd yn fawr mewn llawer capel, mae cydweithrediad da rhwng y gwahanol addoldai gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Bresbyteraidd a'r Eglwys Efengylaidd.

*Gohebydd – Heulwen M. Ellis*

## Ardal Bathafarn

**CYDYMDEIMLO**
Gyda gofid y clywsom am farwolaeth Dei Hughes, neu Dei Nilig i'w gydnabod, ac yntau ond yn 58 mlwydd oed. Roedd Dei yn enedigol o ardal Cyffylliog. Yn gymeriad diffuant a dawnus mewn sawl maes, roedd yn goedwigwr wrth ei alwedigaeth. Roedd Dei yn arlunydd da a byddai'n diddori cymdeithasau drwy ddangos ei luniau. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod Rhian a'i dri mab Elgan, Hefin a Siôn a'r teulu oll.

Cydymdeimlwn hefyd â Gwyneth, Ceinwen, Arwel a'u teuluoedd o golli cefnder annwyl, Augustus Davies o ardal Cyffylliog. Yr un yw ein cydymdeimlad ag Emrys Davies, y bu farw ei chwaer (chwaer hefyd i'r diweddar Barchedig Tudor Davies).

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Huw, Tŷ Ucha'r Llyn, a Dilwen, Plas yn Llan, ar achlysur hapus eu dyweddïad.

**DYMUNIADAU GORAU**
Pob dymuniad da i Dafydd, Bathafarn, ar ei ymddeoliad o fod yn glerc Cyngor Tref Rhuthun.

**CYTÛN**
Daeth cynulliad da iawn o eglwysi'r dref i wasanaeth undebol ym Mathafarn. Roedd y trefniadau yng ngofal y Parchedig Dot Gosling a mwynhawyd cyfraniad y Band. Cyfeiliwyd gan Rhian Roberts a hi hefyd a roddodd y blodau i addurno'r capel. Diolch i bawb am bob cyfraniad.

Braf yw cael dod at ein gilydd fel capeli ac eglwysi Rhuthun yn ystod y Grawys. Bu aelodau Capel Bathafarn yn paratoi Cinio'r Grawys ddechrau Mawrth a'r Parchedig Martin Evans-Jones yn arwain y myfyrdod.

**OEDFAON**
Diolch cywir i'r Parchedigion Jennifer Hurd, Gwyndaf Richards a Martin Evans-Jones am arwain ein haddoliad a hefyd i Olwen Griffiths am drefnu cyfarfod gweddi. Diolchwn yn arbennig hefyd i John Carrington am osod y system sain yng nghapel Bathafarn.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**
Cynhaliwyd gwasanaeth ar Fawrth y 4ydd fel rhan o'r Dydd Gweddi Byd-eang, gan ddilyn y drefn a baratowyd gan chwiorydd Ciwba. Y thema oedd "Derbyniwch blant. Derbyniwch fi". Cymerwyd rhan gan Olwen, Elizabeth, Audrey, Ceinwen ac Edwina, gyda Meta yn cyfeilio a Beryl a Gwenda yn gofalu am y lluniaeth a'r croeso.

**CYMDEITHAS CAPEL BATHAFARN**
Diolch am y trefniadau pan gyfarfu'r Gymdeithas a mwynhau cwmni Nia Higginbotham.

**GLYNDYFRDWY AR EI NEWYDD WEDD**
Rydym yn hynod falch fod capel Glyndyfrdwy yn cynnal oedfaon unwaith eto wedi i'r adeilad gael ei beintio. Boed bendith arnoch.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Ifor Parry yn Ysbyty Maelor. Da yw deall fod Gretta Davies yn cryfhau. Gobeithio y daw arwyddion y gwanwyn â chysur i bawb sydd yn wael.

Gwellhad buan hefyd i Martin a gafodd anffawd wrth chwarae criced.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Ardal Glannau Meirion a Dyfi

Dyma lun Gerald a'r Parchedig Patricia Grudgings, wedi'u lapio'n gynnes ar fore o aeaf yn Nolgellau, a'r tu ôl iddynt mae llawer o fagiau yn llawn dillad cynnes. Erbyn hyn mae cyfeillion yn Aberdyfi a Thywyn wedi casglu tua 40 llond bag a'u trosglwyddo i'r prif fan casglu ym Mlaenau Ffestiniog; oddi yno bydd y nwyddau yn mynd i bobl mewn gwersylloedd ffoaduriaid, yn rhai o'r gwledydd sy'n ffinio â Syria. Diolch yn fawr i aelodau Bethel, Aberdyfi, a Chapel y Bedyddwyr, Tywyn, am eu parodrwydd i helpu.



# Portread o Gymwynaswr: Y Parchedig Owen E. Evans

gan Robin Gwyndaf

### Gair diffuant o ddiolch yw'r ysgrif hon, diolch i gymwynaswr nodedig iawn.

Ganed y Parchg Ddr Owen Ellis Evans ('Owie', neu 'Owie Evans' i'w lu cyfeillion), 23 Rhagfyr 1920, yn Abermaw (y Bermo ar lafar), Sir Feirionnydd, ond treuliodd flynyddoedd cyntaf ei oes yn Wimbledon, Llundain. Un o'r Bermo oedd ei fam, Elizabeth Mary Jones (1887 – 1961). Perthyn i enwad y Wesleaid yr oedd hi, a bu'r teulu yn aelodau ffyddlon yn Ebeneser, yr Eglwys Fethodistaidd, yn y Bermo. Roedd hi wedi priodi ag Owen Jones Evans (1887 – 1926), yntau yn fab i gapten llong o'r Bermo a fu farw'n ifanc, gan adael dau fab bychan (O.J.E. a brawd hŷn). Yn y man, ailbriododd y weddw â gŵr o Borthmadog, ac aeth i fyw i'r dref honno. Ym Mhorthmadog y gorffennodd tad Owen E. Evans ei addysg ysgol, cyn cael ei dderbyn i Goleg y Fferyllwyr yn Llundain, a llwyddo yn ei arholiadau M.P.S.

Fferyllydd yn gweithio yn Llundain oedd ef, felly, pan briododd yn 1917. Ond yn ddyn ifanc trawyd ef yn wael iawn gan glefyd creulon a adwaenid bryd hynny fel 'y clefyd cwsg' ('sleeping sickness'), yn effeithio ar y corff a'r meddwl. Bu raid i'r teulu bach symud yn ôl i'r Bermo yn Haf 1926: Owen a'i rieni a'i unig frawd hŷn, John William. Ond bu farw'r tad cyn diwedd y flwyddyn honno, a chyn i'r teulu symud i fyw i'w cartref newydd. (Roedd y fam wedi prynu tŷ o'r enw Bryn Ithel, King's Crescent, i'w droi'n westy bychan.)

Disgleiriodd Owen yn Ysgol Sir y Bermo, ond gwyddai ef a'i fam weddw (gyda dau o blant i'w magu) na ellid fforddio talu'r costau iddo fynd i'r Brifysgol. Felly, ar anogaeth frwd Prifathro'r ysgol, rhoes gynnig ar arholiad i gael mynediad i'r Gwasanaeth Gwladol ac, o blith cannoedd lawer o ymgeiswyr, bu'n llwyddiannus. Dewisodd yntau fynd i Lundain i weithio.

### O'r Bermo i Lundain, a sefyll dros heddwch a chymod

Erbyn 1937 yr oedd wedi dechrau ar ei swydd gyntaf fel Swyddog Treth Incwm Cynorthwyol mewn swyddfa treth incwm yn Ninas Llundain. Wedi dilyn cyrsiau addas mewn ysgolion nos am ddwy flynedd, llwyddodd yn Arholiad Gradd Uwch [Executive Grade] y Gwasanaeth Gwladol, a symud wedyn ar y radd honno i Somerset House.

Yn Llundain yr oedd pan ymunodd yn fachgen ifanc â Chymdeithas y Cymod. Ar un o raglenni 'Beti a'i Phobol' ar Radio Cymru (30 Tachwedd 2014) roeddwn i wedi cael y cyfle a'r fraint o sôn am her fawr y Gymdeithas hon i'n hoes ni, a llawenydd arbennig i mi oedd derbyn ymateb gwresog gan nifer o bersonau. Ond y wefr fwyaf un oedd darllen llythyr caredig o eiddo'r Dr Owen E. Evans. Meddai yn y paragraff cyntaf:

'Nid yw'r egni gennyf mwyach i sgrifennu llythyrau hir a manwl, ond...hoffwn i chi wybod nad oes dim ers llawer dydd wedi codi a chynhesu fy nghalon yn fwy na'r profiad o wrando ar y sgwrs a glywais ... Diolch o galon i chi (a Beti) am roi'r fath brofiad bendithiol i hynafgwr sy'n un o gyn-Lywyddion Cymdeithas y Cymod yng Nghymru ...'

Mewn llythyr arall o'i eiddo (29 Gorffennaf 2015) y mae'n ymateb i'm cais am wybodaeth ac yn manylu ar yr adeg a'r amgylchiadau yn Llundain pan ymunodd â'r Gymdeithas:

'Rhaid fy mod yn un o aelodau hynaf Cymdeithas y Cymod yng Nghymru erbyn hyn! Ymunais â'r F.O.R. [Fellowship of Reconciliation] dan gyfaredd dau o'r cewri cyntaf, y Parchedigion Henry Carter a Donald Soper, wedi imi 'aros ar ôl' ar ddiwedd oedfa yn Kingsway Hall, Llundain, ar nos Sul, tua diwedd 1938 neu ddechrau 1939. Gwas sifil yn gweithio yn Somerset House oeddwn i ar y pryd, wedi mynd yno [i Lundain] ar ôl gadael Ysgol Sir y Bermo yn 1937.'

Yn Somerset House gweithiai fel 'Assistant Examiner' yn swyddfa'r 'Estate Duty', ond gyda'r nos astudiai am radd Ll.B., fel myfyriwr allanol, yn y London School of Economics, Prifysgol Llundain. Fodd bynnag, daeth y Rhyfel, a'r bomiau yn disgyn ar Lundain ac ar ran o Somerset House. A dyna derfyn ar yr astudio; bu raid iddo hefyd adael y swyddfa yn y Brifddinas dros dro. Symudwyd i Landudno yn Haf 1940. Afraid dweud, yr oedd wrth ei fodd yno. Ond erbyn Gwanwyn 1941, roedd wedi dychwelyd i Lundain.

Dyma'r cyfnod, ar ddechrau'r Rhyfel, y gwnaeth yntau safiad cadarn fel Gwrthwynebwr Cydwybodol. Y mae'n cofio'n dda mai ym Mae Colwyn y cynhaliwyd y tribiwnlys, ac mai Syr Thomas Artemus Jones oedd y Cadeirydd (ef oedd Cadeirydd Tribiwnlys Gwrthwynebwyr Gogledd Cymru). Yn ôl Owen Evans, nid oedd Artemus Jones yn barod iawn i ganiatáu cais Gwrthwynebwyr Cydwybodol, boed Gymry Cymraeg o Ogledd Cymru, neu beidio. Ond ei ryddhau a gafodd y llanc ifanc o'r Bermo, ar yr amod ei fod dros gyfnod y Rhyfel yn cyflawni'n llawn amser *'relief work under civilian control in a bombed area.'* Llwyddodd i gael ei gyflogi gan Gyngor Bwrdeisdref Willesden yng ngogledd Llundain, gan ddechrau yn Ebrill 1941 a pharhau hyd ddiwedd y Rhyfel yn 1945. Roedd yn falch o gael dweud iddo dderbyn pob cefnogaeth gan Gyngor Willesden, er ei fod yn Wrthwynebwr Cydwybodol.

Dyma'r adeg yn Llundain hefyd, 1941 - 45, y dechreuodd bregethu ar y Gylchdaith Fethodistaidd Gymraeg, ac erbyn 1945 roedd wedi'i dderbyn i'r Weinidogaeth gyda'r Wesleaid. I aros ei dro i fynd i Goleg Diwinyddol, anfonwyd

## MERCHED METHODISTAIDD

### Cyfarfod y Gwanwyn

Ebrill 30 2016
Capel Bethel Prestatyn
2.30 y prynhawn.

**"Dyma fy stori, dyma fy nghân"**

Te i ddilyn.

Trefnir dau fws. Bws o Borthmadog – enwau i Valerie Williams
01758 614 083

Bws o Lanrhaeadr, Wrecsam a Dyffryn Clwyd – enwau i Rona Morris
01691 780 226

### Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**Ebrill**
3 Môn ac Arfon
10 Glannau Maelor a Cheredigion
17 Glannau Meirion a Dyfi
24 Sul y Synod

**Mai**
1 Gwyliau
8 Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd
15 Dyffryn Clwyd
22 Morgannwg
29 Glannau Meirion a Dyfi

ef yn Weinidog ar Brawf ('Non-Collegiate Probational Minister') i Feifod, ym Maldwyn, ar Gylchdaith Llanfair Caereinion, am flwyddyn: 1945 - 46. Roedd wedi cael ei anfon, fel y dywedodd yn ei lythyr ataf, 18 Hydref 2015, 'o ganol y Rhyfel yn Llundain i heddwch tawel Meifod a'r cylch.' Mewn llythyr arall (29 Awst 2015), y cyfeiriwyd ato eisoes, soniodd am Eisteddfod Meifod, 2015, a'r cyhoeddiad (wedi'i olygu gan D. Ben Rees) i ddathlu canmlwyddiant Cymdeithas y Cymod, ac ychwanegodd y geiriau hyfryd a ganlyn: 'Mor falch ydwyf mai ym Meifod y bydd y gyfrol *Dilyn Ffordd Tangnefedd* yn cael ei lansio, ac mor falch fyddwn petaswn i'n gallu bod yn bresennol yno. Bendith arnoch oll ac ar y gyfrol.'

### I Leeds a Manceinion i astudio a darlithio

O fis Medi 1946 hyd 1949 bu Owen Evans yn astudio yng Ngholeg Headingley, Coleg y Wesleaid, Leeds, a chael dau ysgolhaig arbennig yn athrawon: Dr Vincent Taylor (y Testament Newydd), a'r Dr Norman H Snaith (yr Hen Destament). Enillodd yntau radd dosbarth cyntaf. Enillodd hefyd yn y man radd BD yn allanol ym Mhrifysgol Llundain a gwnaeth waith ymchwil ar y Testament Newydd ym Mhrifysgol Leeds am radd MA, o dan gyfarwyddyd ysgolhaig Beiblaidd nodedig arall, Matthew Black. Yr un modd, tra bu yn Leeds, wedi graddio, bu'n cynorthwyo ei hen athro, Vincent Taylor, ac yn darlithio ar y Testament Newydd.

Yn 1952 hyd 1953, wele newid byd. Bu'n 'Ail Weinidog' gyda'r Wesleaid ar Gylchdaith Pwllheli yng Nghricieth a Nefyn. Fodd bynnag, wedi dwy flynedd yn y Weinidogaeth, derbyniodd wahoddiad gan y Gynhadledd Fethodistaidd i Gadair y Testament Newydd yng ngholeg yr enwad, Hartley Victoria, Manceinion. Tra bu ym Manceinion (1953 – 69), cafodd y fraint fawr hefyd o gynorthwyo'r Athro T(homas) W(alter) Manson yn y Brifysgol ym Manceinion, ac yn arbennig yn ystod y blynyddoedd 1956 – 58 pan oedd iechyd yr Athro Manson yn dirywio. (Bu farw, 1 Mai 1958.)

Tra bu Owen E. Evans yn Leeds (1946–52), ac ym Manceinion (1953–69), manteisiodd yn fawr ar gwmnïaeth a dysg rhai o brif ysgolheigion Beiblaidd y dydd. O blith y rhain, mewn erthygl ddadlennol, 'On Serving Two Masters', rhoes bortread byw o ddau ysgolhaig y Testament Newydd a gafodd ddylanwad mawr arno: yr Athro Vincent Taylor (Leeds) a'r Athro T W Manson (Manceinion). Meddai wrth gloi ei deyrnged dyner a diffuant i'r ddau ysgolhaig a chyfeillion hyn:


'So it was that for each of the two mentors and masters it was my inestimable privilege to know, to learn from, and to serve, I was given the opportunity – at the close of their earthly lives – to perform some little act of *pietas*.'

Cyhoeddwyd yr erthygl hon yn y gyfrol *The Bible in Church, Academy and Culture: Essays in Honour of John Tudno Williams*; Cyhoeddiadau Pickwick, Wipf & Stock; Eugene, Oregon, UDA; 2011; tt.124 - 41. Golygwyd y gyfrol uchod gan yr awdur, y diwinydd a'r athronydd adnabyddus, y Parchg Athro Alan P F Sell, ac meddai yn ei gyflwyniad (t. 16):
'It is a particular pleasure to introduce "On serving two masters", a paper by the doyen of Welsh New Testament scholars, Dr Owen E. Evans. First, I had the pleasure of sitting under Dr. Evans at the University of Manchester during the very period he writes, and I benefited from the extra load he bore when standing in for Professor T. W. Manson ... [Secondly] I had long hoped that this paper would see the light of published day, for it can truly be said that Dr. Evans is the only person in the world who could have written it, since no one else was both a student under Vincent Taylor and an apprentice lecturer under T. W. Manson. We thus have an unique comparison of the characters and contributions of two giants of English New Testament scholarship of the mid-twentieth century.'

Nid dechrau darlithio fel athro yng Ngholeg Hartley Victoria, Manceinion, fodd bynnag, oedd yr unig ddigwyddiad o bwys ym mywyd Owen Evans yn ystod 1953. Na'r pwysicaf! Dyna'r flwyddyn gofiadwy hefyd y priododd â Margaret Williams, Ffynnongroyw, Sir y Fflint, a bu'r ddau yn gefn i'w gilydd drwy gydol eu hoes faith. Dau enaid hoff cytûn.

### I'r Coleg ym Mangor a chyfarwyddo cyfieithu'r *Beibl Cymraeg Newydd*

Yn 1969, wele dro ar fyd eto. Dychwelyd i Gymru ac ymuno â'r Adran Efrydiau Beiblaidd (neu'r Adran Astudiaethau Crefyddol, fel y gelwid hi wedi hynny), Coleg y Brifysgol, Bangor. Ei swydd oedd darlithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar y Testament Newydd. Swydd wrth fodd ei galon. Ac yno ym Mangor y bu, yn fawr ei barch, hyd nes ymddeol yn 1988.
Ar ei ymddeoliad cyflwynwyd 'Cyfrol Deyrnged i Owen E. Evans', sef *Efrydiau Beiblaidd Bangor: 4* (Gwasg Gee, 1988). Y mae'n gyfrol sy'n cynnwys casgliad gwerthfawr o ysgrifau gan ei gyfeillion a'i gydweithwyr ym maes crefydd, a cheir rhestr o'i brif gyhoeddiadau. Priodol iawn yn y fan hon yw dyfynnu o eiriau Eryl Wynn Davies, y Golygydd. Meddai yn ei gyflwyniad am wrthrych y gyfrol:
'Bu ei ddarlithoedd yn ysbrydoliaeth i fyfyrwyr dros y blynyddoedd, a bu ei waith mewn dosbarthiadau seminar a thiwtorial yn batrwm o amynedd a charedigrwydd a brwdfrydedd dros ei bwnc. Ond fe'i cofir yn annwyl nid yn unig oherwydd ei waith dysgu ymroddedig, ond hefyd oherwydd yr amryw droeon hynny y bu iddo fynd ymhell y tu hwnt i ffiniau dyletswydd, gan gynorthwyo myfyrwyr yn aml gyda'u problemau personol yn ogystal â'u problemau academaidd. Yn wir, nodwedd arbennig arno fel darlithydd oedd ei garedigrwydd ystyriol tuag at yr holl fyfyrwyr dan ei ofal...Bu hefyd yn gydweithiwr hynaws a pharod iawn ei gymwynas bob amser...Fe fydd colled fawr yn yr Adran ar ei ôl a chwithdod am ei gyfeillgarwch hynaws, ei gwmnïaeth ddiddan ac am y ddysg ddihysbydd a rannai mor hael. Fel Adran mynegwn ein gwerthfawrogiad dwfn o'i wasanaeth ffyddlon a diflino.'




O 1989 hyd 1991 bu Owen E. Evans yn Is-lywydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru, ac yna'n Llywydd: 1992- 94. Yn gwbl nodweddiadol ohono, a hynny yng nghanol prysurdeb mawr, rhoes wasanaeth gwir werthfawr ac ymroddedig i'r Gymdeithas. Bu hefyd ar hyd ei oes yn frwd ei gefnogaeth i bob achos da a hyrwyddai gyfiawnder a heddwch. Un enghraifft yw'r gwaith rhagorol a wneir gan Gymuned Corrymeela yng Ngogledd Iwerddon. Bu Margaret Evans ac yntau yno yng nghwmni Nia Rhosier, Rowena Thomas, a'r Parchg Elfed Lewys, ym mis Medi 1994, ar achlysur dathlu 75 mlynedd Cymdeithas y Cymod Ryngwladol (IFOR).

Fodd bynnag, er pwysiced oedd yr holl waith a gyflawnwyd gan Owen Evans, y

cyfeiriwyd ato eisoes, nid oes amheuaeth nad un o'i brif gymwynasau oedd ei gyfraniad cwbl nodedig tuag at baratoi cyfieithiad Cymraeg newydd o'r Beibl. Yn 1961 sefydlwyd Cydbwyllgor gan Gyngor Eglwysi Cymru i ymateb i'r her fawr hon, ac, fel y gwyddom, o ganlyniad, cyhoeddwyd fersiwn gyntaf y cyfieithiad o'r Testament Newydd yn 1975, a'r cyfieithiad o'r Beibl cyfan (yn cynnwys yr Apocryffa) - *Y Beibl Cymraeg Newydd* - ar ŵyl Ddewi, 1988. Yn 1963 roedd Owen Evans wedi'i benodi'n Gadeirydd Panel Cyfieithu'r Testament Newydd. Yna, yn 1974, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr y gwaith cyfan.


*Owen a Margaret Evans*

### 'Bugail eneidiau' a 'chymwynasau di-rif'

Ysgrifennydd Cydbwyllgor y Cyfieithu oedd y Parchg Griffith T Roberts (a fu'n Weinidog ar Eglwys Ebeneser, y Bermo, lle bu teulu Owen Evans yn addoli). Yn y gyfrol *Efrydiau Beiblaidd Bangor*: *4* (tt. 17 - 20), rhoes deyrnged haeddiannol iawn i'w gyfaill a'i gydweithiwr, Owen Evans. Mor dda y gwyddai ef am ei lafur mawr. Meddai:

' ... Dwy flynedd yn unig, felly, a gafodd o brofiad uniongyrchol o waith Gweinidog ordeiniedig mewn eglwys a chylchdaith, ond yn anad unpeth arall, Gweinidog ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau yw ef, wedi ei ordeinio ym 1951, a rhoi llawer iawn o'i wasanaeth mewn llawer cyfeiriad i'w Gyfundeb yng Nghymru, heb esgeuluso'r eglwys fechan y mae ef a'i deulu'n aelodau ffyddlon ohoni ym Môn. Rhydd ei wasanaeth yn gyson o Sul i Sul i eglwysi bychain a mawrion dros gylch eang...Ni ellir bod yn ei gwmni'n hir heb sylweddoli fod ganddo ddiddordeb byw mewn personau, a hynny sy'n peri ei fod, wrth ei waith beunyddiol, yn fwy na darlithydd mewn coleg; y mae hefyd yn fugail eneidiau.'

Ac meddai Griffith T Roberts ymhellach wrth gyfeirio'n arbennig at ei gyfraniad unigryw fel cyfieithydd a Chyfarwyddwr cynllun cyfieithu'r Beibl:

'Prin y gall neb amgyffred yr amser a'r llafur a roes ef i'r gwaith hwn ar hyd y daith o'r dechrau hyd y broflen olaf...Fel athro rhoes do ar ôl to o fyfyrwyr yn drwm yn ei ddyled...[Bellach, drwy'r] Beibl Cymraeg Newydd [y mae wedi] rhoi holl genedl y Cymry yn ei ddyled, ac, yn enw pawb ohonom, braint yw diolch iddo, gyfaill hawddgar a hoff, am ei gymwynasau di-rif.'

Ond nid gŵr i orffwyso ar ei rwyfau fu'r person y bûm i'n ceisio'i bortreadu yn yr ysgrif hon. Gwelodd un bwlch amlwg eto yr oedd angen ei lenwi, sef paratoi 'mynegai cynhwysfawr o'r Beibl Cymraeg Newydd'. Felly, yn sgil dyfarnu iddo Gymrodoriaeth Ann Eilian Owen a Margaret Eilian Owen, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, aeth rhagddo'n ddiymdroi wedi cyhoeddi'r cyfieithiad newydd yn 1988 i osod sylfeini'r gwaith pwysig o fynegeio holl gynnwys y Beibl. Yn 1998, felly, gyda'r Parchg David Robinson yn Olygydd Ymgynghorol, cyhoeddwyd *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd*, ar ran Pwyllgor Cyfieithu'r Beibl, gan Wasg Prifysgol Cymru. Yn ei gyflwyniad i'r gyfrol ardderchog hon (1135 tud., heb gynnwys y 'Mynegai i Enwau' a'r 'Atodiad' yn y cefn), cyfeiriodd yr Athro Gwilym H. Jones yn gwbl haeddiannol ati fel 'campwaith', ac meddai ymhellach am lafurwaith y ddau fynegeiwr: 'Haeddant bob clod a gwerthfawrogiad am eu dyfalbarhad a'u medr yn dod â gwaith mor fawr â hwn i ben.'

### Cydnabod gwasanaeth

Wedi'i gyfraniad cyfoethog dros nifer o flynyddoedd, nid yw'n syn i Brifysgol Cymru ddyfarnu i Owen E. Evans radd Doethur mewn Diwinyddiaeth er Anrhydedd yn 1988. Yn fuan wedi sefydlu Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2010 fe'i hetholwyd yn Gymrawd o'r Gymdeithas honno (FLSW). Yn 1988 roedd yn Llywydd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd. Cyflwynwyd... ansoddwyd iddo hefyd gerddi teyrnged gan y beirdd James Nicholas a Gwyn Thomas.

Hyfrydwch digymysg i minnau yn awr fu cael ysgrifennu hyn o eiriau, ac, ar ran yr holl ddarllenwyr, i ddweud yn syml, ond yn ddiffuant iawn: **diolch o galon**; canmil diolch. Bellach symudodd Margaret ac Owen Evans o'u cartref, Hafod y Bryn, Llanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn, i Blas Garnedd, cartref gofal yn yr un pentref. Ar y trydydd ar hugain o Ragfyr 2015, dathlodd Owen E. Evans ei ben-blwydd yn 95 mlwydd oed. Dymunwn ninnau iddo ef a'i briod iechyd a phob bendith a llawenydd:

I ddau annwyl eiddunaf – ogoniant
Y gwanwyn tyneraf;
Hedd yr awel dawelaf,
A gwynfyd yr hyfryd haf.

---

Cyfeiriad newydd
**Y Parchedig GWILYM O.**
**a Mrs MARGARET JONES** yw:
32 Regents Court, Roft Street
Croesoswallt SY11 2BU
(Eu rhif ffôn o hyd yw 01691 655535)

---

Er cof tyner am
Y Parch **Joseph Edward Williams**
a hunodd Mawrth 30, 2002
a hefyd am **Emyr Wyn**
a hunodd Gorffennaf 22, 1981.
Gwyn eu byd y rhai addfwyn.
*– Ceinwen a John*

---

YSGOL UNDYDD
Y GYMDEITHAS EMYNAU

**Festri Bethel, Stryd y Popty, Aberystwyth**
**Dydd Sadwrn, 7 Mai 2016**
**11.00-3.30**

**Sesiynau:**
* **Goronwy Prys Owen:** Canu Cynnar y Diwygiad Methodistaidd - Agweddau ar Emynau Llawysgrif Llangeitho
* **Siôn Aled Owen:** Emynydd ar Daith
* **Dawi Griffiths:** Cofio Trichanmlwyddiant Morgan Rhys

***Croeso cynnes i bawb***

# "Ei deyrnged fu'r *Gwyliedydd* y llywiodd mor llawen ei ddeunydd"

gan Lionel Madden

Unwaith yn unig y cwrddais ag Owain Owain a hynny ar faes yr Eisteddfod. Os cofiaf yn iawn roedd ef ym mhabell fach yr Eglwys Fethodistaidd ac yn tynnu sylw at y *Gwyliedydd.* Prynais ganddo gopïau o bob rhifyn a gyhoeddwyd hyd yna. Ers hynny – fel sawl un arall, rwy'n sicr – rwy wedi cadw copi o bob rhifyn ac yn cyfeirio atynt yn gyson ar gyfer hanes diweddar ein heglwys.

Wrth inni ddathlu rhifyn 200 y *Gwyliedydd* yn ei ffurf bresennol, mae'n ddiddorol edrych yn ôl a chofio'r cylchgronau eraill a ragflaenodd ein papur presennol. Daeth y cenhadon Wesleaidd Cymraeg cyntaf yn 1800. Mae'n syndod mor fuan ar ôl hynny yr aethant ati i sefydlu cylchgrawn misol, sef *Yr Eurgrawn Wesleyaidd.* Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eurgrawn* mor gynnar ag 1809. Amcan y cylchgrawn oedd darparu erthyglau, pregethau, nodiadau yn egluro'r Ysgrythurau ac eitemau eraill a fyddai'n cadarnhau ffydd yr aelodau a rhoi gwybodaeth iddynt am yr hyn oedd yn digwydd ymysg Methodistiaid ym Mhrydain a thramor. Trwy hyn i gyd roedd yr *Eurgrawn* yn helpu'r Methodistiaid Cymraeg cynnar i deimlo eu bod yn perthyn i deulu'r ffydd yng Nghymru, ym Mhrydain a thrwy'r byd i gyd.

Gan mai cylchgrawn misol ydoedd, nid oedd modd i'r *Eurgrawn* adrodd ac ymateb yn fuan i ddigwyddiadau'r dydd. Felly yn 1877 lansiwyd newyddiadur gyda'r teitl *Y Gwyliedydd.* Dewiswyd y teitl, mae'n debyg, ar ôl *The Watchman*, sef newyddiadur Saesneg cyntaf y Methodistiaid Wesleaidd Prydeinig. Yn wahanol i'r *Eurgrawn* canolbwyntiai *Y Gwyliedydd,* y newyddiadur wythnosol, ar newyddion y dydd gan roi sylw i'r hyn oedd yn digwydd yn yr eglwys ac mewn cymdeithas. Rwy'n cofio gweld y gwahaniaeth rhwng y ddau gyhoeddiad yn glir pan edrychais ar ymateb yr enwad i Ddiwygiad 1904-05. Roedd *Y Gwyliedydd* yn adrodd ar y datblygiadau cyffrous o wythnos i wythnos wrth iddynt ddigwydd. Yn *Yr Eurgrawn* ceid erthyglau mwy sylweddol yn pwyso a mesur arwyddocâd y mudiad a'r goblygiadau i'r eglwys.

Yn 1960 bu'n rhaid i'r *Gwyliedydd* newid o fod yn wythnosol i bythefnosol ac yn 1962 newidiodd yr *Eurgrawn* o fisol i chwarterol. Daeth yr *Eurgrawn* i ben yn gyfan gwbl yn 1983. Ofnid am barhad y *Gwyliedydd.* Cyfraniad enfawr Owain Owain yn 1987 oedd cynllunio cyfnodolyn newydd sbon gyda diwyg cyfoes, cyfuniad o gylchgrawn a newyddiadur.

Yr hyn sydd fwyaf trawiadol am y *Gwyliedydd* a grëwyd gan Owain Owain ac sydd wedi'i ddatblygu gan ei olynwyr yw pa mor atyniadol ydyw. Mae'n lliwgar ac yn llawn lluniau. Mae'n cynnwys amrywiaeth o adroddiadau byr a phytiau bach, ynghyd ag erthyglau mwy sylweddol sy'n ein harwain i fyfyrio a meddwl am ein ffydd. Effaith y cyfan yw gwneud inni sylweddoli, er bod ein haelodaeth o'n capel lleol yn bwysig iawn, ein bod hefyd yn rhan o deulu llawer ehangach.




Y nos sydd yn mynd â'm bryd y tro hwn. Rydw i wedi gwirioni ar gyfrol Gareth Roberts, 'Y Sêr yn eu Tynerwch'. Ei glywed yn siarad wnes i, a chlywed ei stori anhygoel.

Tua deuddeg mlynedd yn ôl, bu raid i Gareth Roberts fynd i ysbyty ym Manceinion i gael profion, a chafodd newyddion erchyll. Roedd y pedair gwythïen yn ei galon wedi cau, ac roedd ganddo chwe wythnos i fyw. Be mae rhywun yn ei wneud dan amgylchiadau felly - yn enwedig os ydych yn ddeugain oed a newydd briodi?

Cynigiwyd triniaeth arbrofol i Gareth, a bu'n llwyddiant. Ond roedd y fath ysgytwad wedi rhoi bywyd mewn persbectif. Penderfynodd Gareth wneud yr hyn a roddai'r boddhad mwyaf iddo, sef cerdded yn y nos gan dynnu lluniau efo'i gamera. Roedd wedi bod yn gwneud hyn ers yn blentyn, ers iddo gael ei swyno gan yr hanes o ddyn yn glanio ar y lleuad.

Ffrwyth y teithiau cerdded hynny ydi'r gyfrol hardd hon - casgliad o luniau gwahanol lefydd yng Ngwynedd gan mwyaf yn y nos, yng ngolau'r lleuad. Mae'n fyd swynol. Ac unwaith rôn i wedi cael fy nghyflwyno i'r cyfan, roedd yn rhaid i minnau gael y profiad.

Y bore wedyn, cododd y mab a minnau am bump y bore, a cherdded ar hyd traeth Dinas Dinlle. Doedd o ddim byd tebyg i gerdded yno yng ngolau dydd.

Dylai fod yn syniad poblogaidd. Dydi o'n costio dim, y cyfan sydd yn rhaid i chi ei wneud yw agor drws eich tŷ a chamu allan – pan mae'n dywyll. Os na fedrwch gerdded, sefwch ar garreg y drws. Os oes gormod o olau stryd yno, ewch i'r cefn. Gorau oll os gallwch fynd i fan lle nad oes unrhyw olau trydan, dyna rydd y wefr fwyaf i chi. Ac mae llefydd felly yn mynd yn gynyddol brin.

Dwi'n meddwl fod Duw wedi bwriadu inni gael y profiad hwn. Mae o'n eich gwneud yn wylaidd iawn. Mae o'n dangos mor fawr yw'r Cread, ac mor fach ydan ni. Weithiau, mae gwylio'r sêr yn codi ofn arnaf - y byd diderfyn, yn enwedig os nad ydych yn siŵr os oes rhywun tu ôl i'r cyfan.

Ar adegau felly, yr hyn ddaw i mi yw geiriau'r Salmydd

***'Pan edrychwyf ar y nefoedd,***
***gwaith dy fysedd; y lloer a'r sêr,***
***y rhai a ordeiniaist;***
***Pa beth yw dyn, i ti i'w gofio?, a***
***mab dyn, i ti i ymweled ag ef?'***

(Salm 8, 3-4)

Edrychwch ar y nos ambell waith, a rhyfeddu.

# MAB y Mans

gan ALED GRIFFITHS

Bûm yn fab, neu yn hytrach, un o feibion y Mans yn Ystumtuen, Bootle (Lerpwl), ac yn un o blant y Mans yn Llanrhaeadr ym Mochnant, Bae Colwyn, Llanrwst a Chaernarfon. Ganwyd fy chwaer Rona yn Bootle ym mis Gorffennaf cyn inni symud ond geneth o LLAN oedd Rona erioed. Diolch i'r drefn ei bod hi wedi cael cyfle i fynd nôl ac aros am oes!

Nid oes gennyf ddim cof o gwbl am Ystumtuen ac ni chawsom ein trwytho chwaith â storïau am y lle gan ein rhieni. Efallai mai'r esboniad am y tawelwch teuluol yw bod marwolaeth ein brawd hynaf, Alun Wyn, ac yntau ond ychydig ddyddiau oed, wedi cymylu'r profiad, i'm mam yn enwedig. Beth bynnag am hynny, bedyddiwyd ni, Alwyn ac Aled Wyn, ryw ddeunaw mis yn ddiweddarach, a deallwn fod y dewis o enwau yn gwbl arwyddocaol.

Mae gennyf nifer o atgofion a chwedlau am Bootle. Un yw'r cof am yr arswyd a brofais pan euthum ar goll yn ystod gorymdaith 'Orangeday' yr ardal. Profiad trwsgl arall oedd gorfod ymdopi â'r Saesneg am y tro cyntaf pan aeth Alwyn a minnau i feithrinfa ger y porthladd oherwydd bod Mam yn feichiog ac angen gorffwys. Cymry uniaith oeddem ar y pryd, a'r Capel a Chymdeithas Gymraeg Lerpwl a'r cylch oedd unig ddalgylch ein cydnabod. Mae Mam yn taeru bod Alwyn a minnau yn siarad iaith unigryw â'n gilydd. Beth bynnag am hynny, roedd bod yn efaill yn gymorth mawr wrth ymateb i'r her, a dichon fod y bartneriaeth wedi hyrwyddo'r broses o symud ysgolion ac ati wrth fynd yn hŷn.

Symud o Bootle i Lanrhaeadr yn bum mlwydd oed a setlo'n hawdd – hynny yn ddi-os oherwydd caredigrwydd anghymharol aelodau'r capel, yn enwedig y teuluoedd amaethyddol. Y Capel Wesle ar y pryd oedd prif ganolfan crefyddol a diwylliannol y pentre', a theg dweud bod tipyn o statws ffilm star yn perthyn i drigolion Bryntirion, Mans y cyfnod, delwedd a gadarnhawyd gan y Gweinidog gan iddo, mewn byr o amser wedi cyrraedd, sgorio gôl allweddol i dîm pêl droed y pentref ac ennill y Gwpan! Fel plant Holywood cawsom gyfleon i ymddangos mewn 'bit parts' megis dwyn afal yn un o ddramâu Miss Hilda Jones. Hi oedd un o ffrindiau penna Nansi Richards, er y byddent yn cwympo allan o bryd i'w gilydd. Yn ôl pob sôn, fe wnaeth Hilda ragordeinio mai dim ond dynion oedd i fod yn bresennol yn ei chynhebrwng. Diau fod hynny wedi gwylltio Nansi, gan iddi fynnu canu'r delyn ar risiau'r capel er mwyn ennill y ddadl ola'.

Bron yn ddieithriad, byddem fel teulu yn cael ein gwahodd allan i ginio neu de ar y Sul. Mi ddysgais na allwn wrthod dim, gan gynnwys llefrith *Carnation* mewn te, ond fy ngobaith pennaf yw bod peth o'r boneddigeiddrwydd a'r cadernid tawel a welais yn eraill wedi gadael marc bach arnaf. Henfache, ffarm odidog, oedd y cyrchfan arferol, cartref Mr a Mrs William Jones, noddwyr a chefnogwyr brwd Cymreictod yr ardal. Yn Llan hefyd y ganwyd Gwenan fy chwaer. Dewiswyd yr enw yn deyrnged i Gwen, merch Henfache, a fu yn gymaint o gymorth i Mam yn ystod ac wedi'r enedigaeth.



Symudwyd dodrefn a thrugareddau ein teulu ni o Lanrhaeadr i 'Kingsland', cul de sac ym Mae Colwyn, mewn lori wartheg gan fod lori Pickfords heb droi i fyny. Rhaid oedd gadael Bryntirion gan fod lori'r mewnfudwyr eisoes wedi cyrraedd. Golchwyd a thrawsnewidiwyd lori yn perthyn i'r teulu Vaughan. Er yn hwyr, llwyddasom i gyrraedd a dadlwytho liw nos gan fod nifer o aelodau capel Llan wedi mynd efo'r lori i gwblhau'r gwaith.

Cafodd y tŷ yn Kingsland ei ddymchwel er mwyn uwchraddio'r A55. Byddaf yn pasio yn aml gan ddreifio dros y man lle roedd y lawnt lle sgoriais y goliau gorau erioed. Ar y lawnt honno hefyd y cefais fy argyhoeddi o bresenoldeb a gofal Duw. Gartref roeddwn i ar fy mhen fy hun yn adolygu ar gyfer arholiad Cemeg, ac ateb y drws i'r diweddar Barchedig John Alun Roberts (yntau eisiau gair â golygydd y *Gwyliedydd* sef fy nhad). Roedd gan John Alun ddiddordeb brwd mewn pobl a holodd beth roeddwn yn ei wneud. Ar y ffordd allan, ac yntau'n edrych ar yr ardd, gofynnodd imi a oeddwn yn credu yn Nuw. Mi atebais yn onest ond yn betrusgar gan ddweud nad oeddwn yn siŵr. Tybed, meddai, wrth feddwl am y Cemeg, a oeddwn yn credu mai hap a damwain oedd canlyniadau'r arbrofion? Wedyn y *clincher:* a allwn gredu bod popeth o'm hamgylch yn ganlyniad hap? O'r foment honno, yn bymtheg oed, rwyf wedi gorfod credu mewn rhywbeth mwy na hap! Efallai nad hap ychwaith oedd i Alwyn fy mrawd, flynyddoedd yn ddiweddarach, gyfarfod â Iorwerth, mab John Alun, yn Uganda — y ddau yn gwirfoddoli i wneud gwaith elusennol gyda rhai o blant strydoedd Kampala.

Un diog iawn oeddwn fel disgybl ond cefais gyfle i fanteisio ar gwmni disgyblion gwell a mwy cydwybodol na mi yn Ysgol Bod Alaw a'r Ysgol Ramadeg wedi hynny. Ychydig o Gymry Cymraeg oedd ymhlith disgyblion yr ysgol uwchradd er mai Cymry oedd y rhan fwyaf o'r athrawon. Nid oedd bod yn fab i weinidog bob amser yn fêl – rwy'n cofio cael fy ngheryddu'n gyhoeddus o flaen pawb am floeddio canu yn yr Asembli: '*Griffiths, You should be ashamed of yourself- and your father a minister*!' Rwy'n dal i or-ganu am wn i, ond rhaid dweud bod y canu yng Nghapel Bae Colwyn ar y pryd yn ardderchog. Organyddion talentog a llinach arbennig o godwyr canu, y teulu Ellis.

Symud i Lanrwst o Fae Colwyn, ac mae gennyf atgofion melys tu hwnt o gapel Llanrwst, yn enwedig yr Ysgol Sul. Profiad arbennig oedd cael y diweddar Mr Eric Jones yn athro arnom. Roedd cael cyfle i drafod materion ag unigolyn mor agored ei feddwl yn help garw wrth dyfu i fyny. Aethpwyd ati hefyd yn y cyfnod hwn i gystadlu a pherfformio yng ngweithgareddau'r MAYC. Cystadlu 5 a side ym Mirmingham a Wembley a chanu corawl lond y lle yn yr Albert Hall. Gwn fod llawer yn parhau i gofio am lwyddiant rhyngwladol Llanrwst.

Ac yn olaf i dref Caernarfon. Erbyn symud roeddwn i yn y Coleg ym Mangor ond heb adael cartref. Cefais gyfle i wneud ffrindiau â phobl ifanc arbennig megis Arfon Williams, Will Robinson a Dewi Owen yn Ebeneser. Trist iawn oedd clywed am farwolaeth annhymig Dewi. Cofiaf yn dda hefyd am sêl ac ymroddiad y blaenoriaid - unigolion fel Ifan Hefin, Huw Alun, Dafydd Jones (Dwedge), Bob Pritchard, Porth yr Aur, Miss Eurwen Williams a Miss Branwen Edwards. Mae Branwen, wrth gwrs, yn dal ati mor brysur a brwdfrydig ag erioed. Dyn tawel ei natur oedd Bob Pritchard ond llwyddai i ymweld ag ysbytai Caernarfon bob pnawn Sul rhag ofn bod rhywun yn unig ac angen sgwrs. Diolchaf am yr atgofion ac am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a ddangoswyd tuag atom fel teulu yn ddieithriad, yn arbennig y gefnogaeth i Mam a Dad.

OWAIN OWAIN

Ei deyrnged fu'r Gwyliedydd
– y llywiodd
Mor llawen ei ddeunydd,
Troi'r golau ar ffeithiau'r Ffydd
Yn wir liwgar Olygydd. –*Tilsli*

# 3Generate





Mae llawer ohonom yn cofio mwynhau bod yn rhan o MAYC flynyddoedd yn ôl a chael mynd efallai i Benwythnos Llundain. Mae cyfle tebyg yn cael ei gynnig yn awr i'r rhai sydd rhwng 8 a 23 oed, o'r enw **3Generate**. Daw pobl ifanc o Eglwysi Methodistaidd ledled Prydain at ei gilydd i addoli, dysgu, rhannu a chael hwyl. Yma cawn yr hanes gan ddau o bobl ifanc Synod Cymru sef Isaac (10 oed) ac Elizabeth (9 oed), wedi iddynt fod ar Benwythnos 3Generate.

***Beth ydi 3Generate, felly?***
Isaac: Fforwm ieuenctid. Mae'n rhai cyfle i blant a phobl ifanc o'r eglwysi Methodistaidd ym mhob rhan o wledydd Prydain ddweud eu dweud a dysgu gan ei gilydd. Rydyn ni'n cael hwyl a chwarae gemau hefyd. Mae mewn canolfan antur PGL lle mae na lawer o weithgareddau i ddewis ohonyn nhw. Galli di wneud ffrindiau newydd yno. Roedd o'n digwydd ar y penwythnos, diwedd mis Tachwedd.

***Efo pwy wnest ti fynd?***
Elizabeth: Efo Dad (roedd o yn y gweithgaredd i arweinwyr) ac Isaac fy mrawd. Roedd 600 o bobl yno i gyd.

***Beth oedd dy argraff gynta di?***
Isaac: Gweld yr hogia oedd yn yr un stafell, dod i'w nabod nhw...wnes i drio rhoi'r argraff fy mod i'n awyddus ac yn barod i ffitio i mewn.

***Beth oeddet ti'n licio orau?***
Isaac: Y disgo distaw, y storiau efo Bob Hartman (☺), a'r cwrs her fertigol (un o'r gweithgareddau).
Elizabeth: Fy hoff beth i oedd pob peth!! Y storiau efo Bob Hartman (☺) a pethau tu allan – goroesi, adeiladu den, cynnau tân (☺). Wnes i fynd i sesiwn "Craftivism" a gaethon ni chwarae efo tegan enfawr oedd wedi'i chwythu i fyny.

***Unrhyw beth arall?***
Isaac: Roeddwn i'n rhannu stafell efo 2 hogyn arall. Roedd gwlâu bwnc a stafell molchi. Amser bwyd, roedd na ddewis mawr o fwyd i'w gael...ANHYGOEL o lot o ddewis! Roedd y gweithgareddau i gyd yn hwyl.

Cynhelir gweithgareddau 3Generate mewn tri grŵp oedran sef 8-11, 11-18 ac 18+. Ar yr un pryd mae cyfle i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ymuno â phenwythnos "Y Ffynnon". Yn 3Generate caiff y bobl ifanc bleidleisio i ddewis llywydd ieuenctid nesaf yr Eglwys Fethodistaidd (swydd â chyflog sy'n rhan o dîm y Cyfundeb) ac ethol cynrychiolwyr ieuenctid i amryw o swyddi yn yr Eglwys a'r Gynhadledd.

Byddai'n wych petai mwy o bobl ifanc o Synod Cymru yn dod y tro nesaf, ym mis Tachwedd 2016! **Beth amdani?** Fe ofalir bod arweinydd sy'n siarad Cymraeg yn bresennol ar gyfer plant Cymraeg eu hiaith. Gallwch weld fideo o 3Generate ar y wefan http://www.methodist.org.uk/mission/3generate



I ddathlu y dauganfed rhifyn o'r *Gwyliedydd*, ein cylchgrawn arobryn teithiodd Martha a Wil yr holl ffordd o Brasil a Sesil o ochre Llanegryn.
*–RJ*




Bydd gennym nwyddau hyfryd ar werth i gofio am y dathliad ar 9 Ebrill!

**Welwn ni chi yno!!**

# Tudalen y Plant



Dyma lun arch Noa wedi i'r dilyw fynd heibio. Mae'r ddaear wedi sychu a'r holl anifeiliaid wedi dod allan o'r arch. Ond pa un o'r anifeiliaid yw hwn? Cysylltwch y dotiau i gael ei weld.



**Pa fath o anifail sy'n dweud WM WM?**
Buwch yn cerdded wysg ei chefn.

**Beth ydi hoff gêm crocodeil?**
Snap

**Pa un ydi'r cryfaf o'r holl anifeiliaid?**
Y falwen. Mae hi'n cario ei thŷ ar ei chefn!

**Sut mae cael eliffant i ddod i lawr o ben coeden?**
Ei roi i eistedd ar ben deilen ac aros tan yr hydref!

**Ben:** Mae fy nghi i ar goll.
**Elin:** Pam na wnei di roi hysbys yn y papur newydd?
**Ben:** Paid â bod yn wirion! Dydi o ddim yn gallu darllen.

## DATHLU RHIFYN 200 CYFRES NEWYDD Y GWYLIEDYDD!

Ebrill 9fed 2016
Diwrnod Agored
11am – 4pm
Canolfan Ebeneser, Caernarfon





BWYD A CHWMNIAETH!

HWYL I'R TEULU GYDA KAREN WYNNE, ANGHARAD TOMOS AC ERAILL!

Am fanylion pellach ffoniwch Robin (01248 670140)

## CROESO I BAWB!